

Taflen Wybodaeth 24w • Ionawr 2026

Taliadau uniongyrchol am wasanaethau gofal cymdeithasol yng Nghymru



Cynnwys

1	Gwybodaeth am y daflen wybodaeth hon	5
	1.1 Adrannau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol	5
2	Deddfwriaeth sy'n gysylltiedig â'r system gofal cymdeithasol yng Nghymru - Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a'r canllaw Cod Ymarfer amgaeedig	6
	2.1 Dogfennau Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru - canllaw ar gyfer awdurdodau lleol wrth iddyn nhw wneud asesiadau gofal cymdeithasol	7
	2.2 Rheoliadau a chanllawiau Llywodraeth Cymru am daliadau uniongyrchol yn benodol	7
3	Beth yw taliadau uniongyrchol?	8
4	Gwybodaeth gefndirol am feini prawf cymhwysedd a gweithdrefnau codi tal am wasanaethau gofal cymdeithasol awdurdodau lleol (a sut mae taliadau uniongyrchol yn gweithredu o fewn y system)	10
	4.1 Asesu a chymhwysedd ar gyfer gwasanaethau	11
	4.2 Profion modd ariannol	12
	4.3 Dyletswyddau gwybodaeth a chyngor ac eiriolaeth ar awdurdodau lleol	12
5	A oes rhaid i awdurdodau lleol gynnig taliadau uniongyrchol?	14
6	Pwy all gael taliad uniongyrchol?	15
	6.1 Cymhwysedd cyfredol	15
	6.2 Argaeledd taliadau uniongyrchol ar gyfer gofal ieuchyd parhaus y GIG o ganlyniad i Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2025 – disgwylir o 1 Ebrill 2026	17
7	Gwasanaethau cymorth i bobl sy'n gymwys i gael taliadau uniongyrchol (ac sydd â gallu meddyliol)	19
	7.1 Gwasanaethau cymorth a ddarperir gan awdurdodau lleol	19
	7.2 Cefnogaeth gan berson y mae'r defnyddiwr gwasanaeth yn dymuno ei helpu	20
8	Rheolau 'person addas' pan nad oes gan ddefnyddiwr gwasanaeth allu meddyliol	20
	8.1 Opsiynau ynghylch person addas	21
	8.2 Cymorth i 'person addas'	22

9	Newid i daliad uniongyrchol os ydych eisoed yn derbyn gwasanaethau gan yr awdurdod lleol	22
	9.1 Gwasanaethau yn ystod cyfnod 'interim' pan fyddwch yn ystyried taliad uniongyrchol	23
10	Eich cynllun gofal pan fyddwch yn derbyn taliadau uniongyrchol	23
11	Lefel eich taliad uniongyrchol	24
	11.1 Eich cyfraniad tuag at gost eich gofal	25
12	Defnyddio eich taliadau uniongyrchol	25
	12.1 Enghreifftiau o sut y gellir defnyddio taliadau uniongyrchol	26
13	Astudiaethau achos taliadau uniongyrchol	28
14	Amrywio sut rydych chi'n defnyddio taliad uniongyrchol o wythnos i wythnos (oherwydd anghenion amrywiol)	29
15	Problemau wrth drefnu eich gwasanaethau eich hun trwy daliadau uniongyrchol	30
	15.1 Cyflogi eich gweithwyr gofal neu gynorthwyywyr personol eich hun – materion i'w hystyried cyn ac wrth recriwtio	30
	15.2 Contractio gydag asiantaeth neu rywun sy'n hunangyflogedig (os ydych am ddefnyddio taliadau uniongyrchol, ond nad ydych am fod yn gyflogwr)	33
	15.3 Defnyddio taliad uniongyrchol i dalu am ofal gan aelod o'r teulu	35
	15.4 Offer ac addasiadau	36
	15.5 Delio ag argyfyngau	36
16	Monitro taliadau uniongyrchol gan awdurdodau lleol	37
17	Rhoi'r gorau i daliadau uniongyrchol	38
	17.1 Dewis rhoi'r gorau i'r taliadau uniongyrchol	38
	17.2 Beth os yw'r awdurdod lleol yn dymuno rhoi'r gorau i'r taliadau uniongyrchol?	38
18	Adolygiadau awdurdodau lleol cyfnodol o anghenion gofal a thaliadau uniongyrchol	39
19	Rheoli risg, gwiriadau cofnodion troseddol a diogelu defnyddwyr gwasanaeth	40
	Rheoli risg	40

	19.1 Gwiriadau cofnodion troseddol – y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)	40
	19.2 Diogelu pobl hŷn	41
20	Cwyno am benderfyniad neu ddarpariaeth gwasanaeth	41
21	Sefydliadau defnyddiol	42
22	Rhagor o wybodaeth am Age Cymru	45

1 Gwybodaeth am y daflen wybodaeth hon

Mae'r pecyn gwybodaeth hon yn llawn gwybodaeth defnyddiol am daliadau uniongyrchol sy'n ymwneud â gwasanaethau gofal cymdeithasol a sut mae'r system yn gweithredu yng Nghymru¹.

Mae gwasanaethau gofal cymdeithasol yn cynnwys ystod eang o wasanaethau, megis gofal personol, cymorth arall yn y cartref (fel prydau bwyd sy'n cael eu cymryd i'r tŷ), neu ganolfannau dydd i bobl hŷn.

Mae taliadau uniongyrchol yn daliadau gydag arian parod y gall awdurdodau lleol eu gwneud i unigolion. Mae hyn yn galluogi'r unigolion i drefnu eu gwasanaethau eu hunain i ddiwallu eu hanghenion gofal cymdeithasol. Maent yn cynnig dewis arall i'r unigolyn, ar wahan i bod yr awdurdod lleol yn trefnu gwasanaethau gofal cymdeithasol ar ran yr unigolyn. Mae'n orfodol i awdurdodau lleol gynnig taliadau uniongyrchol i bobl hŷn sy'n bodloni'r meini prawf cymhwysedd angenrheidiol.

Os hoffech chi rhagor o wybodaeth am asesiadau gofal cymdeithasol a gwasanaethau sy'n cael eu cynnig, neu wasanaethau sy'n cael eu trefnu gan eich awdurdod lleol, darllenwch Daflen Wybodaeth Age Cymru 41w *Asesiadau gofal cymdeithasol ar gyfer pobl hŷn ag anghenion gofal yng Nghymru*.

Nodwch: Mae'r wybodaeth sy'n cael ei rhannu yn y pecyn gwybodaeth hon yn berthnasol yng Nghymru. Mae rheolau gwahanol yn berthnasol yn Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban. Cysylltwch ag Age UK, Age NI ac Age Scotland yn y drefn honno i gael rhagor o wybodaeth.

1.1 Adrannau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol

Yn y pecyn gwybodaeth hon bydd cyfeiriadau at yr 'awdurdod lleol' neu'r 'cyngor' yn cyfeirio at **adran gwasanaethau cymdeithasol oedolion yr awdurdod lleol**. Efallai byddwn ni hefyd yn cyfeirio at adran gwasanaethau cymdeithasol perthnasol mewn adrannau arall o'r pecyn gwybodaeth gan ddefnyddio amrywiadau tebyg, megis:

- adran gofal cymdeithasol;

¹ Efallai eich bod chi hefyd wedi clywed am y term 'cyllidebau personol' os ydych chi wedi gwneud unrhyw waith ymchwil ar daliadau uniongyrchol. Fodd bynnag, dylid nodi mai yn Lloegr yn unig mae cyllidebau personol yn berthnasol. Yng Nghymru dim ond taliadau uniongyrchol sydd i'w cael.

- gwasanaethau cymdeithasol ar gyfer oedolion;
- adran pobl hŷn; *neu*
- tîm pobl hŷn.

Mae timau gwasanaethau cymdeithasol oedolion yn gyfrifol am nifer o bethau, yn cynnwys asesu angen pobl am wasanaethau 'gofal a chymorth' neu 'gofal cymdeithasol' a phenderfynu a yw'r anghenion hynny'n bodloni'r meini prawf cymhwysedd.

Nodwch: Dod o hyd i fanylion cyswllt ar gyfer eich adran gwasanaethau cymdeithasol

Os oes gennych chi fynediad i'r rhyngwrdd, gallwch chwilio am eich awdurdod lleol gan ddefnyddio eich cod post ar wefan Llywodraeth Cymru:

www.gov.wales/find-your-local-authority

Fel arall, gall Cyngor Age Cymru ddarparu'r manylion cyswllt – gweler adran 21.

2 Deddfwriaeth sy'n gysylltiedig â'r system gofal cymdeithasol yng Nghymru - Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a'r canllaw Cod Ymarfer amgaeedig

Gweithredwyd y Ddeddf hon yn llawn ym mis Ebrill 2016 a dyma'r brif ddeddfwriaeth sy'n cwmpasu'r system gofal cymdeithasol yng Nghymru, gan gynnwys:

- y broses asesu gofal cymdeithasol;
- rheolau cysylltiedig sy'n ymwneud â threfnu a thalu am ofal (boed hyn yn y cartref a/neu wasanaethau amhreswyl eraill, neu gartrefi preswyl / gofal nyrsio);
- y dogfennau canllaw y mae'n rhaid i awdurdodau lleol eu defnyddio wrth asesu anghenion; *ac*
- y canllawiau y mae'n rhaid i awdurdodau lleol eu defnyddio wrth gynnal profion modd gydag unigolion, mewn achosion ble mae'n debygol fydd angen codi tâl am y gwasanaethau.

Bydd llawer o'r adrannau yn y canllaw hon (a chanllawiau eraill Age Cymru ar bynciau sy'n ymwneud â gofal cymdeithasol) yn defnyddio'r Ddeddf hon – a chanllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer awdurdodau lleol sy'n cyd-fynd â hi (gweler adran 2.1 isod) – fel prif ffynhonnell wybodaeth. Bydd cyfeiriadau yn cael eu darparu yn y testun lle bo hynny'n berthnasol.

Nodwch: I gael rhagor o wybodaeth gyffredinol am *Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014*, darllenwch ganllaw Age Cymru 41w *Asesiadau gofal cymdeithasol ar gyfer pobl hŷn ag anghenion gofal yng Nghymru*.

2.1 Dogfennau Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru - canllaw ar gyfer awdurdodau lleol wrth iddyn nhw wneud asesiadau gofal cymdeithasol

Yn yr un modd â llawer o fathau eraill o ddeddfwriaeth, mae yna Godau Ymarfer sy'n cyd-fynd â'r *Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)*.

Mae canllawiau'r Codau Ymarfer yn cael eu cefnogi gan y gyfraith. Eu nod yw cynorthwyo unigolion, gweithwyr proffesiynol a sefydliadau i weithio o fewn y Ddeddf a chydymffurfio â hi – h.y. cawsant eu hysgrifennu mewn iaith Saesneg mwy syml. Felly, yn gyffredinol, maen nhw'n haws i'w deall na'r Ddeddf/rheoliadau gwirioneddol.

Rhaid i awdurdodau lleol weithredu yn unol â'r codau ymarfer a'u gofynion wrth gyflawni eu swyddogaethau ar gyfer y gwasanaethau cymdeithasol.

2.2 Rheoliadau a chanllawiau Llywodraeth Cymru am daliadau uniongyrchol yn benodol

Mae Rheoliadau Gofal a Chymorth (Taliadau Uniongyrchol) (Cymru) 2015 – a gyhoeddwyd o dan *Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru 2014* – yn cynnwys y rheolau sy'n sail i weithrediad taliadau uniongyrchol gan awdurdodau lleol yng Nghymru.

Fel y cyfeiriwyd ato yn adran 2.1 uchod, mae yna Godau Ymarfer hefyd sy'n cyd-fynd â'r *Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)*. Prif ddogfen Codau Ymarfer Llywodraeth Cymru sy'n ymdrin â thaliadau uniongyrchol yw:

Cod Ymarfer ar arfer gwasanaethau cymdeithasol yn gweithredu mewn perthynas â rhan 4 (Diwallu anghenion) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Gan gynnwys cymhwysedd, cynllunio gofal a chymorth a thaliadau uniongyrchol).

Mae copiau ar wefan Gofal Cymdeithasol Cymru yma:

www.socialcare.wales/hub/codes-of-practice

3 Beth yw taliadau uniongyrchol?

Mae taliadau uniongyrchol yn cynnwys arian sydd ar gael gan awdurdod lleol i unigolyn sydd angen defnyddio'r gwasanaethau gofal cymdeithasol.

Mae'r unigolyn sydd ag anghenion gofal a chymorth wedyn yn defnyddio'r arian hwn i drefnu eu gwasanaethau eu hunain i ddiwallu eu hanghenion (h.y. yr anghenion cafodd eu nodi yn ystod asesiad anghenion gofal. Yr awdurdod sy'n gyfrifol am gyflawni'r asesiad ar gyfer yr unigolyn – darllenwch ganllaw Age Cymru 41w *Asesiadau gofal cymdeithasol ar gyfer pobl hŷn ag anghenion gofal yng Nghymru* i gael rhagor o wybodaeth am y pwnc hwn).

Mae hyn yn cyferbynnu â'r ffordd 'draddodiadol' o sicrhau bod anghenion gofal a chymorth unigolyn yn cael eu diwallu, lle mae'r awdurdod lleol yn trefnu gwasanaethau ar ran y defnyddiwr gwasanaeth (os nad yw'r unigolyn eisiau trefnu ei ofal ei hun, yna defnyddir y model safonol h.y bydd yr awdurdod lleol yn trefnu a/neu ddarparu'r gwasanaethau, yn hytrach na thaliadau uniongyrchol).

Fodd bynnag, gall taliadau uniongyrchol gynnig rhagor o ddewis, hyblygrwydd ac ymreolaeth i'r defnyddiwr gwasanaeth, i bobl a fyddai'n gwerthfawrogi hyn.

Mae gan awdurdodau lleol ddyletswyddau penodol i gynnig cymorth i bobl sydd eisiau defnyddio taliadau uniongyrchol, ond efallai bod y bobl hynny'n teimlo bod y cyfrifoldebau dan sylw'n ben tost – mae rhagor o wybodaeth am hyn yn adran 7.

Gall taliadau uniongyrchol gael eu defnyddio i dalu am **"rhan o anghenion gofal a chymorth unigolyn, neu am y cyfan"**².

Os yw gofalwyr wedi cael eu hasesu, ac wedi cael eu hadnabod fel unigolyn sydd angen gwasanaethau cymorth gan yr awdurdod lleol, hefyd ddewis taliadau uniongyrchol – ewch i adran 6 isod.

Hefyd, pan nad oes gan rywun ag anghenion gofal alluedd, efallai y bydd taliadau uniongyrchol yn cael eu cynnig, ar yr amod y gall person addas, dibynadwy reoli'r taliadau ar ran yr unigolyn – ewch i adran 8.

Mae Llywodraeth Cymru wedi datgan bod "taliadau uniongyrchol yn rhan annatod o ddiwallu anghenion pobl drwy gynllunio gofal a chymorth, ac ni ddylid eu hystyried fel ystyriaeth eilaidd ar wahân"³.

Enghraifft: Pan waethygodd arthritis ac angina Helen, gofynnodd ei merch am asesiad anghenion gofal cymdeithasol. Canfuwyd bod angen gofal rheolaidd arni gartref i helpu gyda gofal personol.

"Rydw i'n teimlo'n falch fy mod i wedi bod yn berson annibynnol drwy gydol fy oes, ac rydw i wedi ymdopi ar fy mhen fy hun. Ond pan waethygodd fy mhroblemau iechydd sylweddolais fod angen help arnaf er mwyn i mi fedru parhau i fyw gartref. Ar ôl fy asesiad, trefnodd y cyngor bod gweithiwr gofal yn galw heibio bob bore i'm helpu i godi, golchi a gwisgo. Roedd hyn yn help mawr, ond doeddwn i ddim eisiau bod y gweithiwr gofal yn galw mor gynnar bob bore – roeddwn i eisiau gorwedd yn fy ngwely am gyfnod. Doeddwn i ddim yn hoffi cael gofalwr gwahanol bob dydd chwaith.

² Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014: Rhan 4 Cod Ymarfer (Diwallu Anghenion), Llywodraeth Cymru.

³ Ibid

Siaradais â fy ngweithiwr cymdeithasol ac esboniodd am daliadau uniongyrchol. Darllenodd fy merch a minnau am y peth a phenderfynu mynd amdani. Rwy'n eu defnyddio i gyflogi cynorthwyydd personol, sy'n deall fy anghenion ac sy'n gweithio yn dda gyda mi. Fe wnes i gyfweld â sawl person cyn i mi ei dewis. Mae hi'n dod ychydig yn hwyrach ar ddydd Gwener er mwyn i mi allu cysgu ac yn mynd â mi i'm caffi lleol am frecwast unwaith yr wythnos. Mae'r gwaith papur ar gyfer taliadau uniongyrchol yn swnio'n frawychus, yn enwedig gan fod fy arthritis gwynegol yn ei gwneud hi'n anodd ysgrifennu, ond mae fy merch yn fy helpu i lenwi ffurflenni a gallaf eu cwblhau fy hun".

4 Gwybodaeth gefndirol am feini prawf cymhwysedd a gweithdrefnau codi tal am wasanaethau gofal cymdeithasol awdurdodau lleol (a sut mae taliadau uniongyrchol yn gweithredu o fewn y system)

P'un a ydych am dderbyn taliad uniongyrchol er mwyn trefnu eich gwasanaethau eich hun, neu i'r awdurdod lleol drefnu gwasanaethau ar eich rhan, mae'r canlynol yn union yr un peth:

- **y meini prawf cymhwysedd y bydd awdurdod lleol yn eu defnyddio i benderfynu a yw eich anghenion ar lefel lle rydych chi'n gymwys i gael gwasanaethau; ac**
- **y weithdrefn profion modd dilynol ar gyfer penderfynu a ddylech gyfrannu tuag at eich costau gofal, a faint dylech chi gyfrannu.**

Nodwch: Os yw'r awdurdod lleol yn trefnu gwasanaethau i chi – yn dibynnu ar ganlyniadau eu prawf modd – efallai y gofynnir i chi gyfrannu swm penodol tuag at gyfanswm cost y gwasanaethau.

Yn yr un modd, gyda thaliadau uniongyrchol, byddai'r awdurdod yn cyfrifo faint o arian sydd ei angen i sicrhau gwasanaethau i ddiwallu eich holl anghenion, ond – unwaith eto, yn seiliedig ar ganlyniadau'r prawf modd – efallai mai dim ond *cyfran* o hyn y byddwch yn ei dderbyn ganddynt fel eich taliad uniongyrchol a byddai disgwyl i chi dalu am weddill y gost eich hun.

Gweler adran 4.2 isod am ragor o wybodaeth.

4.1 Asesu a chymhwysedd ar gyfer gwasanaethau

Asesiad o anghenion ar gyfer y person ag anghenion gofal (ac, lle bo'n berthnasol, asesiad ar gyfer ei ofalwr)

Y cam cyntaf i gael help gan adran gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol yw gofyn am asesiad o'ch anghenion. Yn gyffredinol, ni fydd yr awdurdod lleol yn gallu eich cynorthwyo nes ei fod wedi cynnal yr asesiad gyntaf (gellir cyfeirio at hyn gan nifer o dermau tebyg, megis 'asesiad gofal cymdeithasol', 'asesiad gofal cymunedol', 'asesiad anghenion gofal', neu 'asesiad anghenion' yn syml).

Mae gan yr awdurdod lleol ddyletswydd gyfreithiol i gynnal asesiad o unrhyw un sy'n byw yn ei ardal a allai fod angen gwasanaethau gofal cymdeithasol, unwaith y daw'n ymwybodol o'r angen hwn⁴.

Nid yw lefel eich adnoddau ariannol nac amgylchiadau eraill yn effeithio ar yr hawl i asesiad anghenion (fodd bynnag, mae'n debygol y bydd tâl am wasanaethau dilynol a ddarperir o ganlyniad i'r asesiad – gweler adran 4.2 isod).

Nodwch: Os ydych chi'n cael help gan ffrind neu aelod o'r teulu (gofalwr), dylid ystyried anghenion a barn eich gofalwr ei hun fel rhan o'ch asesiad eich hun. Mae gan ofalwyr hawl i'w hasesiad *eu hunain* ochr yn ochr â'ch asesiad chi neu weithiau ar y cyd â'ch un chi.

Meini prawf cymhwysedd ar gyfer darparu gwasanaethau

Ar ôl cwblhau asesiad anghenion, yn seiliedig ar y canlyniadau, bydd yr awdurdod lleol yn penderfynu a ddylai ddarparu neu drefnu gwasanaethau gofal cymdeithasol i chi. **Rhaid i'r awdurdod ddefnyddio meini prawf cymhwysedd cenedlaethol i wneud y penderfyniad hwn.** Mae gan Ganllaw Age Cymru 41w *Asesiadau gofal cymdeithasol ar gyfer pobl hŷn ag anghenion gofal yng Nghymru* wybodaeth fanwl am hyn.

⁴ Bydd person hŷn yn aml yn cael hawl i asesiad anghenion ei hun (er sylwer na fyddai hyn o reidrwydd yn golygu y byddent yn cael eu hystyried yn gymwys i gael gwasanaethau o ganlyniad – byddai hyn yn dibynnu ar lefel neu raddfa eu hanghenion a nodir yn yr asesiad).

4.2 Profion modd ariannol

Fel y nodwyd uchod, efallai y bydd gofyn i chi gyfrannu tuag at gost eich gwasanaethau gofal a bydd unrhyw gyfraniad yn cael ei gyfrifo ar gyfer trefniant talu uniongyrchol gan ddefnyddio'r un rheolau prawf modd fel pe bai'r awdurdod lleol yn darparu neu'n trefnu gwasanaethau yn uniongyrchol.

Gweler Canllaw Age Cymru 46w *Talu am ofal a chymorth gartref yng Nghymru* i gael rhagor o wybodaeth am weithdrefnau codi tâl awdurdodau lleol ar gyfer gofal cartref a gwasanaethau gofal cymdeithasol amhreswyl eraill, gan gynnwys:

- mathau o incwm a chyfalaf sy'n cael eu hystyried yn y prawf modd (a'r rhai y gellir eu hanwybyddu);
- uchafswm tâl wythnosol (ar gyfer gwasanaethau gofal amhreswyl); ac
- eich isafswm incwm ar ôl talu'ch tâl (a sut y dylai'r awdurdod lleol gyfrifo hyn).

4.3 Dyletswyddau gwybodaeth a chyngor ac eiriolaeth ar awdurdodau lleol

Dyletswydd Gwybodaeth a Chyngor (gan gynnwys mewn perthynas â thaliadau uniongyrchol)

Mae Rhan 2 o *Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014* yn cynnwys dyletswyddau ar awdurdodau lleol i ddarparu "gwybodaeth, cyngor a chymorth... sy'n ymwneud â gofal a chymorth".

Yn fras, rhaid i'w gwasanaeth "gynnwys, o leiaf, cyhoeddi gwybodaeth... ar sut mae'r system gofal a chymorth yn gweithredu yn ardal yr awdurdod lleol... y mathau o ofal a chymorth sydd ar gael... sut i gael mynediad at [hyn] a sut i nodi pryderon am les person sy'n ymddangos bod ganddo anghenion"⁵.

⁵ Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 – Rhan 2 Cod Ymarfer (Cyffredinol Swyddogaethau) (fersiwn 2024), Llywodraeth Cymru.

Mewn perthynas â thaliadau uniongyrchol, yn benodol, rhaid i awdurdodau lleol "ddarparu gwybodaeth a chymorth priodol, hygyrch i alluogi pobl, neu eu cynrychiolwyr, i benderfynu a ydyn nhw'n dymuno derbyn taliadau uniongyrchol. Rhaid i'r wybodaeth a'r gefnogaeth a ddarperir fod yn addas i ddiwallu eu hanghenion cyfathrebu a... digon i'r person, neu ei gynrychiolydd, allu gwneud penderfyniad gwybodus".

Er mwyn gwneud hynny, "mae angen i unigolion ddeall beth sy'n gysylltiedig â rheoli taliad uniongyrchol. Rhaid i awdurdod lleol ddarparu, neu drefnu [yn gynnwys yn y broses asesu a chynllunio gofal] ddarparu... gwybodaeth a chefnogaeth ar yr hyn y bydd derbyn taliadau uniongyrchol yn ei olygu a sicrhau bod y person yn gwerthfawrogi'n llawn yr hyn y mae hyn yn ei olygu"⁶ – gweler hefyd adran 7 isod mewn perthynas â gwasanaethau cymorth ar gyfer derbynwyr taliadau uniongyrchol.

Dyletswyddau eiriolaeth

Mae'r *Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)* hefyd yn cynnwys dyletswyddau ar awdurdodau lleol mewn perthynas â gwasanaethau eiriolaeth. Os ydych chi'n cael trafferth mynegi eich barn a'ch anghenion ac yn teimlo y byddai hyn yn rhy anodd o ran trafodaethau ar wasanaethau i'w darparu a sut y byddwch chi'n cael eich codi tâl, yna gall gwasanaeth eiriolaeth fod o gymorth. Mewn llawer o achosion, y dyletswyddau sydd gan yr awdurdod lleol fydd gwneud pobl yn ymwybodol o argaeledd cymorth eiriolaeth, os ydynt yn dymuno defnyddio hyn – gweler isod am awgrymiadau o ble y gallech ddod o hyd i wasanaeth addas yn eich ardal.

Fel arall, mewn sefyllfaoedd eraill **bydd gan yr awdurdod ddyletswydd benodol i "drefnu eiriolwr proffesiynol annibynnol"** i rywun⁷.

Gweler Canllaw Age Cymru 41w *Asesiadau gofal cymdeithasol ar gyfer pobl hŷn ag anghenion gofal yng Nghymru* i gael rhagor o fanylion am wybodaeth a chynghor a chyfrifoldebau eiriolaeth awdurdodau lleol.

⁶ Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014: Rhan 4 Cod Ymarfer (Diwallu Anghenion), Llywodraeth Cymru.

⁷ Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014: Rhan 10 Cod Ymarfer (Eiriolaeth), Llywodraeth Cymru (fersiwn 2 – Rhagfyr 2019). Mae copi ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru: <https://gov.wales/advocacy-services-code-practice>

Nodwch: Dod o hyd i wasanaeth eiriolaeth

Gall eich sefydliad lleol Age Cymru ddarparu gwasanaethau eiriolaeth:

www.agecymru.wales/local

Gallech hefyd gysylltu â Chyngor Age Cymru a all roi gwybod i chi am unrhyw ddarpariaeth eiriolaeth yn eich ardal chi, neu ddefnyddio rhestr Age Cymru o wasanaethau eiriolaeth ar y ddolen ganlynol (sgroliwch i waelod y dudalen ar gyfer '*Gwasanaethau eiriolaeth yng Nghymru*')

www.agecymru.wales/advocacy

Mae gan wefan Ombudsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru restr o sefydliadau a allai fod yn gallu cynnig gwasanaethau eiriolaeth:

www.ombudsman.wales/advice-advocates

5 A oes rhaid i awdurdodau lleol gynnig taliadau uniongyrchol?

Os ydych chi'n bodloni'r meini prawf cymhwysedd, rhaid i'r awdurdod gynnig taliadau uniongyrchol fel opsiwn pan fydd trafodaethau am eich cynllun gofal a chymorth yn digwydd ar ôl asesu eich anghenion gofal.

Mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn cynghori:

"Pan fo angen gofal a chymorth cymwys... wedi cael eu nodi a'r unigolyn, neu ei gynrychiolydd, yn mynegi dymuniad i dderbyn un, rhaid sicrhau bod taliadau uniongyrchol ar gael ym mhob achos lle maent yn galluogi canlyniadau personol i gael eu cyflawni. Rhaid i awdurdod lleol fod yn arloesol ac yn greadigol wrth weithio mewn partneriaeth â derbynwyr neu eu cynrychiolwyr i archwilio ffyrdd y gellir defnyddio taliad uniongyrchol i sicrhau'r canlyniadau personol. Rhaid gwrthod taliadau uniongyrchol pan mae'n amlwg ar ôl archwilio helaeth na fyddai taliad uniongyrchol yn sicrhau'r canlyniadau sy'n ofynnol".

Ar ben hynny, "rhaid i unigolion beidio â gwrthod taliad uniongyrchol oherwydd nad ydynt yn gallu ymdopi gyda'r taliad, neu oherwydd eu bod yn bryderus am ymdopi gyda thaliad. Rhaid i awdurdod lleol, mewn partneriaeth â'r person, archwilio'r holl opsiynau ar gyfer cefnogi'r unigolyn i reoli taliad uniongyrchol. Pan fydd anhawsterau yn cael eu nodi, rhaid i awdurdodau lleol sicrhau bod y lefel gywir o gymorth ar gael i oresgyn rhwystrau"⁸.

Nodwch: Fel y cyfeiriwyd arno yn adran 3 uchod, nid oes rhaid i unigolyn dderbyn taliadau uniongyrchol.

Os yw'n well ganddynt, gallant ddewis derbyn gwasanaethau a ddarperir ac a drefnir gan yr awdurdod lleol, neu becyn 'gofal cymysg', lle mae rhai o'r gwasanaethau yn cael eu darparu gan yr awdurdod lleol ac anghenion eraill yn cael eu diwallu trwy daliadau uniongyrchol.

Gall hyn, er enghraifft, roi cyfle i rywun ymgyswrtio â chael taliadau uniongyrchol cyn cymryd cyfrifoldeb am drefnu cymorth i ddiwallu eu holl anghenion.

I gael gwybodaeth am sut y gallech ddefnyddio'ch taliad uniongyrchol, gweler adran 12.

6 Pwy all gael taliad uniongyrchol?

6.1 Cymhwysedd cyfredol

I fod yn gymwys i gael taliad uniongyrchol:

- Bydd angen i rywun fod wedi cael ei asesu fel un sydd angen gofal a/neu wasanaethau cymorth gan ei awdurdod lleol o dan *Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014*; a

⁸ Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014: Rhan 4 Cod Ymarfer (Diwallu Anghenion), Llywodraeth Cymru.

- **Bydd angen i'r awdurdod lleol fod yn fodlon bod taliadau uniongyrchol yn "ffordd briodol o ddiwallu anghenion y person"**⁹ (fel yr amlinellwyd yn gynharach yn y canllaw, dylai awdurdod fod yn agored am y gwahanol bosibiliadau ar gyfer defnyddio taliadau uniongyrchol ac archwilio'r holl opsiynau yn llawn, cyn dod i'r casgliad na fyddent yn briodol mewn unrhyw achos penodol).

Felly, ar yr amod bod yr uchod yn berthnasol, dylai pobl ag anghenion gofal a / neu gymorth ym mhob un o'r enghreifftiau canlynol allu derbyn eu gwasanaethau gofal cymdeithasol trwy daliad uniongyrchol:

- Defnyddiwr gwasanaeth sy'n gwbl alluog i reoli'r taliad uniongyrchol ar ei ben ei hun (neu'n gwbl alluog, gydag ychwanegu cymorth priodol – gweler hefyd adran 7).
- Defnyddiwr gwasanaeth sydd heb ddigon o allu meddyliol i wneud y penderfyniad i dderbyn taliad uniongyrchol, **ar yr amod bod person 'addas' i drefnu a rheoli'r taliad uniongyrchol ar eu rhan** (os nad oedd hyn yn wir, yna ni fyddent yn gymwys) – gweler adran 8 am ragor o wybodaeth am y mater hwn.
- Gofalwyr – h.y. gofalwyr 'anffurfiol', fel aelodau o'r teulu neu ffrind¹⁰. Gellir asesu gofalwr fel un sy'n gymwys i gael gwasanaethau i'w gefnogi gyda'u rôl gofalu, yn ogystal â chynnal eu hiechyd a'u lles eu hunain wrth wneud hynny. Os felly, yn y modd y gall y person sydd ag anghenion gofal ddewis defnyddio taliad uniongyrchol, gall gofalwr wneud hyn hefyd.
- Pan fo awdurdod lleol y person o dan ddyletswydd i ddarparu gwasanaethau ôl-ofal iddynt o dan adran 117 *Deddf Iechyd Meddwl 1983*¹¹ (dylai pobl sy'n ddarostyngedig i ddeddfwriaeth iechyd meddwl arall hefyd fod yn gymwys yn gyffredinol).

⁹ 'Memorandwm Esboniadol i Reoliadau Gofal a Chymorth (Taliad Uniongyrchol) (Cymru) 2015' (Llywodraeth Cymru), 21 Hydref 2015.

¹⁰ "Yn gyffredinol, ni ddylid ystyried gofalwyr proffesiynol sy'n derbyn taliad yn ofalwyr at ddibenion Deddf [Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)], ac ni ddylai pobl sy'n darparu gofal fel gwaith gwirfoddol" – Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014: Rhan 3 Cod Ymarfer (asesu anghenion unigolion), Llywodraeth Cymru.

¹¹ Mae gan rai pobl sydd wedi cael eu cadw yn yr ysbyty o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl hawl i gymorth am ddim ar ôl iddynt adael yr ysbyty – cyfeirir atynt yn aml fel 'ôl-ofal Adran 117' gan mai dyma'r adran o'r ddeddfwriaeth sy'n darparu'r hawl honno. Mae adran 117 yn gosod dyletswydd ar y cyd ar awdurdodau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol i ddarparu'r gwasanaethau ôl-ofal hyn; Bydd p'un a yw gofal rhywun yn dod o fewn cylch gwaith y GIG neu adran gwasanaethau cymdeithasol eu hawdurdod lleol yn dibynnu ar beth yw eu hanghenion penodol.

- Pobl sy'n ddarostyngedig i ddarpariaethau sy'n gysylltiedig â chyffuriau ac alcohol mewn deddfwriaeth cyfiawnder troseddol penodol (ond *dim ond* ar yr amod bod taliad yn cael ei wneud i berson arall sy'n addas ac mae'r ddau berson yn cytuno â'r trefniant"¹²).

6.2 Argaeledd taliadau uniongyrchol ar gyfer gofal iechyd parhaus y GIG o ganlyniad i Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2025 – disgwylir o 1 Ebrill 2026

Cefndir: Mae gofal iechyd parhaus y GIG (NHS CHC) yn becyn o ofal a drefnir ac a ariennir gan y GIG yn unig i ddiwallu anghenion iechyd corfforol a/neu feddyliol sydd wedi dod i'r amlwg oherwydd anabledd, damwain neu salwch.

Mae penderfyniadau cymhwysedd ar gyfer CHC y GIG yn dibynnu ar a yw eich angen am ofal yn bennaf oherwydd eich anghenion iechyd – cyfeirir ato yn aml fel 'angen iechyd sylfaenol' (yn hytrach nag angen am ofal yn bennaf oherwydd anghenion gofal cymdeithasol sy'n dod o fewn cylch gwaith adrannau gwasanaethau cymdeithasol, yn hytrach na'r gwasanaeth iechyd).

I gael rhagor o wybodaeth, gweler Canllaw Age Cymru 20w *gofal iechyd parhaus y GIG a gofal nyrsio a ariennir gan y GIG yng Nghymru*.

Mae Rhan 2 o *Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2025* (a dderbyniodd Gydsyniad Brenhinol ym mis Mawrth 2025) yn gwneud "diwygiadau i Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 er mwyn galluogi cyflwyno taliadau uniongyrchol o fewn Gofal Iechyd Parhaus y GIG"¹³.

Fodd bynnag, dylid nodi nad yw'r darpariaethau penodol hyn wedi'u gweithredu gan Lywodraeth Cymru eto (byddant yn dod i rym "mewn gorchymyn a wneir gan offeryn statudol neu offeryn statudol Cymreig" gan Weinidogion Cymru¹⁴).

¹² Offerynnau Statudol Cymru: 2015 Rhif 1815 (Cy. 260) Gofal Cymdeithasol, Cymru: Y Gofal a Chymorth (Taliadau Uniongyrchol) (Cymru) (nodyn esboniadol).

¹³ 'Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2025', Gwefan Cyfraith Cymru: <https://law.gov.wales/health-and-social-care-wales-act-2025> (cyrchwyd ddiwethaf 9 Ionawr 2026).

¹⁴ Ibid

Ar adeg ysgrifennu – Ionawr 2026 – mae Llywodraeth Cymru wedi datgan eu bod yn disgwyl gallu cyflwyno'r "opsiwn o wneud taliadau uniongyrchol ar gyfer CHC o **1 Ebrill 2026**"¹⁵.

Roedd gwybodaeth a ryddhawyd cyn i *Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2025* gael ei phasio yn darparu rhagor o wybodaeth am y newidiadau arfaethedig, yn ogystal â'r rhesymeg y tu ôl iddynt:

"Mae tystiolaeth bod rhai pobl â chyflyrau iechyd cymhleth yn gwrthod asesiadau CHC. Gall hyn fod am nifer o resymau ond mae'r rhesymau hyn yn aml yn cynnwys... peidio â bod eisiau colli'r llais a'r rheolaeth sydd ganddynt trwy daliadau uniongyrchol awdurdodau lleol a'r teimlad pellach o golli annibyniaeth [a/neu] pryder y gallai fod amrywiad mewn cymhwysedd CHC a allai amharu ar eu pecyn gofal sefydlog [a/neu] pryder y gallai fod yn rhaid iddynt adael un neu fwy o Gynorthwyr Personol dibynadwy a chyfarwydd oherwydd bod CHC a gomisiynwyd yn draddodiadol yn cynnig llai o hyblygrwydd a dewis o ran y darparwr gofal".

"Os yw person yn cael ei asesu fel un sy'n gymwys ar gyfer CHC ond yn gwrthod pecyn CHC, ni fydd yn golygu yn awtomatig y gellir cynnal y status quo a bod yr awdurdod lleol yn cadw'r cyfrifoldeb am ddiwallu eu hanghenion gofal a chymorth. Nid oes dyletswydd ar awdurdod lleol i ddiwallu anghenion am ofal a chymorth y gellir eu darparu drwy ddulliau eraill (yn yr achos hwn gan y GIG trwy becyn gofal i ddiwallu angen am ofal iechyd sylfaenol trwy hawl i CHC)".

Er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn, bydd y diwygiad i *Ddeddf GIG (Cymru) 2006* yn "caniatáu i Weinidogion Cymru wneud taliadau uniongyrchol i gleifion unigol", felly bydd pobl yn cael eu galluogi "i sicrhau gwasanaethau i ddiwallu eu hanghenion a aseswyd am ofal iechyd yn hytrach na derbyn gwasanaethau a ddarperir neu a gomisiynwyd gan y GIG yng Nghymru"¹⁶.

¹⁵ Datganiad Ysgrifenedig: Gorchymyn Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2025 (Cychwyn Rhif 1 a Darpariaethau Trosiannol ac Arbed) 2025 a'r wybodaeth ddiweddaraf am weithredu'r Ddeddf, Dawn Bowden AS, y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol, Gwefan Llywodraeth Cymru: www.gov.wales/written-statement-health-and-social-care-wales-act-2025-commencement-no1-and-transitional-and (cyrchwyd ddiwethaf 9 Ionawr 2026).

¹⁶ Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru): Memorandwm Esboniadol sy'n ymgorffori'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r Nodiadau Esboniadol, Llywodraeth Cymru, Mai 2024.

7 Gwasanaethau cymorth i bobl sy'n gymwys i gael taliadau uniongyrchol (ac sydd â gallu meddyliol)

Mae'r adran hon yn ymwneud â'r rhai sydd â digon o allu meddyliol i ddewis derbyn taliadau uniongyrchol, ond sydd eisiau a/neu sydd angen cymorth i'w helpu i reoli'r taliadau – gweler adran 8 am wybodaeth am y rheolau ynghylch taliadau uniongyrchol sy'n cael eu gweithredu ar ran rhywun sydd heb alluedd meddyliol.

7.1 Gwasanaethau cymorth a ddarperir gan awdurdodau lleol

Rhaid i awdurdodau lleol sicrhau eu bod yn "datblygu gwasanaethau cymorth lleol ar gyfer derbynwyr taliadau uniongyrchol" a/neu "eu cynrychiolydd"¹⁷.

Gall y gwasanaethau gael eu rhedeg yn uniongyrchol gan yr awdurdod lleol neu mewn partneriaeth ag asiantaeth wirfoddol leol. Hefyd, rhaid i awdurdodau "archwilio, mewn partneriaeth â derbynwyr, y gwahanol fodelau a ffyrdd y gellir darparu cymorth i sicrhau bod y trefniadau sydd ganddynt ar waith yn effeithiol, yn ymatebol i ofynion derbynwyr ac yn canolbwyntio ar y person"¹⁸.

Gall gwasanaethau gynnwys:

- cefnogaeth, gwybodaeth a chynghor gan y rhai sy'n derbyn taliadau uniongyrchol ar hyn o bryd sy'n gallu trosglwyddo'r hyn maen nhw wedi'i ddysgu;
- hyfforddiant a chymorth ymarferol, yn enwedig cymorth gyda chyflogi gweithwyr gofal;
- rhestrau o asiantaethau gofal;
- help gyda drafftio hysbysebion a chontractau;
- darparu ystafelloedd ar gyfer cyfweiliadau; *neu*
- gweithredu fel derbynnydd er mwyn ymateb i hysbysebion.

¹⁷ Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014: Rhan 4 Cod Ymarfer (Diwallu Anghenion), Llywodraeth Cymru.

¹⁸ Ibid

7.2 Cefnogaeth gan berson y mae'r defnyddiwr gwasanaeth yn dymuno ei helpu

Fel arall, efallai na fydd angen unrhyw wasanaethau gan wasanaeth cymorth a ddarperir neu a gomisiynwyd gan yr awdurdod lleol ar y derbynnydd taliadau uniongyrchol, gan fod perthynas neu ffrind yn gallu darparu'r lefel briodol o gymorth.

Fel yr amlinellwyd uchod, gall y person hwn hefyd ddefnyddio gwasanaeth cymorth ei hun, er mwyn eu helpu yn eu rôl.

Bydd yr awdurdod lleol hefyd eisiau bod yn fodlon bod y person sy'n cynnig cymorth i'r defnyddiwr gwasanaeth i reoli'r taliad yn berson addas (yn yr un modd ag y mae'n rhaid i rywun sy'n rheoli taliad ar ran rhywun sydd heb alluedd fod yn berson addas, fel y trafodir isod).

8 Rheolau 'person addas' pan nad oes gan ddefnyddiwr gwasanaeth allu meddyliol

Fel y cyfeiriwyd ato'n flaenorol yn y canllaw hwn, os nad oes gan rywun allu – fel y'i diffinnir yn *Neddf Galluedd Meddyliol 2005* – gellir gwneud taliadau uniongyrchol i 'berson addas' **parod a phriodol**, sy'n derbyn ac yn rheoli'r taliadau ar ran y person sydd heb alluedd.

Deddf Galluedd Meddyliol 2005

Mae Deddf Galluedd Meddyliol 2005 yn nodi:

"Nid oes gan berson alluedd os nad yw'n gallu gwneud penderfyniad drosto'i hun mewn perthynas â mater penodol (ar y pryd) oherwydd nam ar y meddwl neu'r ymennydd neu aflonyddwch yn yr ymennydd".

Pan fydd unrhyw un yn gweithredu ar ran person arall sydd wedi colli galluedd – gan gynnwys 'person addas' yn achos taliadau uniongyrchol gofal cymdeithasol – rhaid iddynt weithredu bob amser er '**budd gorau**' y person y maent yn ei gefnogi a chadw at yr egwyddorion statudol y mae'r *Deddf Galluedd Meddyliol* wedi'i seilio arnynt. Dyma nhw:

- **Rhagdybiaeth o allu** – mae gan bob oedolyn yr hawl i wneud ei benderfyniadau ei hun a rhaid tybio bod ganddo allu i wneud hynny oni bai ei fod yn cael ei brofi fel arall.

- **Yr hawl i gael eu cefnogi i wneud eu penderfyniadau eu hunain** – Rhaid cymryd pob cam ymarferol i helpu person i wneud ei benderfyniad ei hun cyn i unrhyw un ddod i'r casgliad nad ydynt yn gallu gwneud hynny.
- **Yr hawl i wneud penderfyniadau ecsentrig neu anghywir** – Ni ddylid trin person fel nad yw'n gallu gwneud penderfyniad oherwydd bod y penderfyniad maen nhw'n ei wneud yn cael ei ystyried yn anghywir.
- **Lles pennaf** – Rhaid i unrhyw benderfyniad neu weithred a gymerir ar ran pobl heb allu fod er eu lles pennaf.
- **Ymyrraeth leiaf cyfyngol** – Dylai unrhyw un sy'n gwneud penderfyniad ar ran person heb allu ystyried pob dewis amgen effeithiol a dewis yr un sy'n lleiaf cyfyngol o hawliau a rhyddid sylfaenol y person.

Mae Cod *Ymarfer* i gyd-fynd â'r Ddeddf a llyfrynnau gwybodaeth i gynorthwyo pobl i ddeall y ddeddfwriaeth. Mae'r rhain ar gael ar wefan GOV.UK yma:

www.gov.uk/government/collections/mental-capacity-act-making-decisions

Hefyd, gweler Canllaw 22 Age UK *Arranging for someone else to make decisions on your part* er mwyn cael rhagor o wybodaeth.

8.1 Opsiynau ynghylch person addas

Yn aml, bydd person addas yn aelod agos o'r teulu neu'n ffrind sydd â chyfranogiad presennol yng ngofal y person sy'n gymwys i gael gwasanaethau ("Beth bynnag yw'r berthynas, mae'n rhaid i awdurdod lleol sicrhau bod lles pennaf y person sydd heb allu yn cael ei flaenoriaethu uwchlaw pob ystyriaeth arall"¹⁹). Yn eu canllawiau, mae Llywodraeth Cymru yn amlinellu'r broses sydd angen dilyn er mwyn penodi person addas, yr amodau sydd i'w bodloni ganddynt a'r dulliau o ymdrin â risg a diogelu. Mae'r canlynol yn opsiynau datganedig mewn perthynas â phwy all fodloni'r diffiniad o berson addas:

- Rhywun sydd wedi'i benodi fel **atwrnai** o dan atwrneiaeth barhaus (LPA) - er ei bod yn annhebygol y bydd LPA ariannol ar ei ben ei hun yn ddigonol.
- Person sydd wedi'i benodi'n **ddirprwy** i'r person sydd angen gwasanaethau gan y Llys Gwarchod (o dan adran 16 Deddf Galluedd Meddyliol 2005).

¹⁹ Ibid

- Rhywun sydd wedi cynnig gweithredu fel person addas ac y mae'r awdurdod lleol yn ystyried ei fod yn gweithredu er lles pennaf y person sydd heb allu".
- Cyflogai "sefydliad neu drydydd parti a benodir gan awdurdod lleol" – er enghraifft, darparwr cynllun cymorth²⁰.

Nodwch: "Provided that the suitable person is able to manage the direct payments, either with or without support, and is considered to have the individual's best interests at heart, the local authority must provide the direct payments to that suitable person Ar yr amod bod y person addas yn gallu rheoli'r taliadau uniongyrchol, naill ai gyda chymorth neu hebdo, ac ystyrir eu bod yn parchu lles pennaf yr unigolyn, rhaid i'r awdurdod lleol ddarparu'r taliadau uniongyrchol i'r person addas hwnnw"²¹.

8.2 Cymorth i 'person addas'

Gall rhywun sy'n gweithredu fel person addas gael cymorth i reoli'r taliad uniongyrchol, os oes angen – h.y. gallant gael mynediad at yr un gwasanaethau cymorth a nodir yn adran 7 uchod.

9 Newid i daliad uniongyrchol os ydych eisoed yn derbyn gwasanaethau gan yr awdurdod lleol

Os ydych eisoed wedi bod yn derbyn gwasanaethau gofal neu gymorth wedi'u trefnu neu eu comisiynu gan eich awdurdod lleol, gallwch ofyn ar unrhyw adeg i newid i daliadau uniongyrchol yn lle hynny. Efallai y bydd yr awdurdod eisiau adolygu eich pecyn gofal a chymorth bryd hynny, fel rhan o'r broses o benderfynu a ydych chi'n gymwys i gael taliadau uniongyrchol.

²⁰ Ibid

²¹ Ibid

9.1 Gwasanaethau yn ystod cyfnod 'interim' pan fyddwch yn ystyried taliad uniongyrchol

Os ydych chi'n ystyried cael taliad uniongyrchol (neu os ydych wedi penderfynu eich bod am ddefnyddio taliadau uniongyrchol ond nad ydych wedi cael amser i drefnu eich gwasanaethau eich hun eto), ni ddylech gael eich gadael heb y gwasanaethau sydd eu hangen arnoch yn y cyfamser.

Efallai y bydd angen i chi gael gwasanaethau wedi'u trefnu gan yr awdurdod lleol nes eich bod yn gallu rhoi eich gwasanaethau eich hun ar waith. Mae'r awdurdod lleol ond yn cael ei ryddhau o'u dyletswydd i ddarparu gwasanaethau os yw'n fodlon bod eich anghenion yn cael eu diwallu. Os nad yw eich anghenion yn cael eu diwallu, mae dyletswydd ar yr awdurdod lleol i ddarparu'r gwasanaethau yn uniongyrchol.

Dewch o hyd i gymaint o wybodaeth â phosibl fel y gallwch wneud dewis gwybodus ynghylch ai taliadau uniongyrchol yw'r opsiwn gorau i chi. Efallai y bydd gan eich awdurdod lleol ei ganllaw ei hun, neu efallai gallwn nhw eich cysylltu â grŵp cymorth neu â phobl eraill sydd eisoes â thaliadau uniongyrchol.

10 Eich cynllun gofal pan fyddwch yn derbyn taliadau uniongyrchol

Yn dilyn asesiad gan awdurdod lleol lle nodir bod gennych 'anghenion cymwys', rhaid trafod, cytuno ac ysgrifennu cynllun gofal a chymorth. "Lle mae rhai neu bob un o anghenion y person yn cael eu diwallu trwy wneud taliadau uniongyrchol [mae'n rhaid i'r] **cynllun**...cynnwys disgrifiad o":

- "yr anghenion sydd angen eu diwallu gan daliadau uniongyrchol"; a
- "swm ac amllder y taliadau uniongyrchol".²²

Rhaid i'r awdurdod lleol roi copi ysgrifenedig o'ch cynllun gofal i chi.

I gael rhagor o wybodaeth am gynlluniau gofal yn gyffredinol, gweler Canllaw 41w Age Cymru *Asesiadau gofal cymdeithasol ar gyfer pobl hŷn ag anghenion gofal yng Nghymru*.

²² Ibid

11 Lefel eich taliad uniongyrchol

Rhaid i'r swm a roddir i chi fel eich taliad uniongyrchol fod yn ddigon i'ch galluogi i sicrhau gwasanaeth o safon sy'n diwallu eich anghenion asessedig a'r holl rwymedigaethau cyfreithiol cysylltiedig.

Dylid nodi, yn ymarferol, y bydd yr awdurdod yn amharod i wneud taliad uniongyrchol am **swm yn fwy** nag y mae'n cyfrifo y byddai'n costio i ddarparu (neu drefnu) y gwasanaeth ei hun. Os bydd eich dull dewisol o sicrhau gwasanaethau yn ddrytach nag amcangyfrif yr awdurdod o'r gost resymol o wneud hynny, efallai y bydd yn rhaid i chi dalu'r gwahaniaeth eich hun.

Fodd bynnag, yn arwyddocaol, dylai cost amcangyfrifedig yr awdurdod gynnwys unrhyw gostau cysylltiedig a allai fod yn gysylltiedig â thaliadau uniongyrchol – er enghraifft:

- TAW;
- cyfraniadau Yswiriant Gwladol y cyflogwr;
- tâl salwch;
- tâl gwyliau;
- yswiriant atebolrwydd cyflogwr;
- cyfraniadau pensiwn; *ac*
- taliadau diswyddo posibl os bydd cyflogaeth gweithiwr gofal yn dod i ben.

Mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn mynd i'r afael â'r mater hwn fel a ganlyn:

"Wrth gyfrifo gwerth taliad uniongyrchol rhaid i awdurdod lleol gynnwys costau cynhenid sy'n gysylltiedig â bod yn gyflogwr cyfreithiol neu drwy ddarparu digon o gymorth ariannol i brynu gwasanaeth cyfreithiol digonol i sicrhau bod y derbynnydd yn cydymffurfio â'r cyfreithlondeb o fod yn gyflogwr. Rhaid i awdurdod lleol hefyd ystyried cynnwys, fesul achos, costau dewisol sy'n gysylltiedig â'r gofynion ar gyfer cyflawni canlyniadau personol y derbynnydd. Er enghraifft, rhwymedigaethau anstatudol fel taliad bonws *ex gratia*"²³.

Mae rhagor o wybodaeth yn adran 15.

²³ Ibid

Gall yr awdurdod lleol gytuno i dalu mwy na'i gost amcangyfrifedig, os yw'n fodlon bod y gost uwch yn cael ei gyfiawnhau oherwydd ei fod yn fwy effeithiol wrth alluogi'r person i reoli ei wasanaethau ei hun a byw'n annibynnol.

Gallech gwyno os ydych chi'n meddwl bod yr awdurdod lleol wedi bod yn rhy gyfyngol o ran y swm y bydd yn ei dalu – gweler adran 20.

11.1 Eich cyfraniad tuag at gost eich gofal

Efallai y gofynnir i chi gyfrannu tuag at gost gofal a drefnwyd gan ddefnyddio taliadau uniongyrchol, yn yr un modd â phe bai'r awdurdod lleol wedi trefnu neu ddarparu gwasanaethau – h.y. dim ond *cyfran benodol* o'r cyfanswm y mae'r awdurdod wedi'i gyfrifo y bydd ei angen i ddiwallu eich anghenion drwy daliad uniongyrchol y gall eich taliad uniongyrchol dalu. Bydd hyn yn digwydd os bydd canlyniadau eu prawf modd ariannol yn penderfynu bod gennych ddigon o adnoddau i dalu rhan o'r gost eich hun.

Fodd bynnag, mae **uchafswm tâl wythnosol** yng Nghymru ar gyfer pobl sy'n derbyn gwasanaethau gofal cymdeithasol amhreswyl gan yr awdurdod lleol. Mae'r swm yn cael ei gynyddu o bryd i'w gilydd, ond nid o reidrwydd bob blwyddyn. Mae gwybodaeth am yr uchafswm tâl cyfredol i'w gweld yng nghanllaw 46w Age Cymru *Talu am ofal a chymorth gartref yng Nghymru*.

Mae'r canllaw uchod hefyd yn cynnwys rhagor o fanylion ar sut mae'r uchafswm tâl yn cyd-fynd â rheolau'r profion modd ehangach ar gyfer gofal yn y cartref a gwasanaethau gofal cymdeithasol amhreswyl eraill, gan gynnwys **isafswm incwm** y mae'n rhaid i bobl eu cael ar ôl talu tuag at eu gwasanaethau.

12 Defnyddio eich taliadau uniongyrchol

Gallwch ddefnyddio eich taliadau uniongyrchol sut bynnag y dymunwch, cyn belled â'i fod i ddiwallu eich anghenion cymwys a aseswyd – hynny yw, yr anghenion fel y'u nodwyd yn eich asesiad gofal.

12.1 Enghreifftiau o sut y gellir defnyddio taliadau uniongyrchol

Er bod angen i adrannau gwasanaethau cymdeithasol osod amodau i sicrhau bod y taliadau'n cael eu defnyddio ar anghenion a aseswyd, dylid gwneud trefniadau mewn perthynas â nod cyffredinol taliadau uniongyrchol – h.y. maent wedi'u trefnu i roi mwy o ddewis a rheolaeth i bobl dros y gwasanaethau gofal a chymorth sydd eu hangen arnyn nhw.

Felly, ni ddylai adrannau gwasanaethau cymdeithasol gael eu cyfyngu'n ormodol gan batrymau presennol / sefydledig o ddarparu gwasanaethau. Er enghraifft, isod mae rhestr o rai o'r pethau y gallech chi ddefnyddio taliad uniongyrchol ar eu cyfer, sy'n cynnwys mathau traddodiadol o ofal cartref ochr yn ochr â dulliau eraill a allai fod yn addas i bobl benodol:

- Gofal personol – er enghraifft, gwisgo, golchi ac ymolchi, mynd i mewn ac allan o'r gwely, bwyta ac yfed, neu gymryd meddyginiaeth (ewch i adran 15 isod i weld sut allwch chi ddod o hyd i weithiwr gofal neu gynorthwydd personol).
- Gwaith tŷ, coginio, siopa, neu arddio.
- Cymorth gydag anghenion cyfathrebu.
- Diwallu anghenion cymdeithasol a/neu wasanaethau lles – gweithgareddau hamdden, teithiau, ymweld â ffrindiau, mynychu grwpiau cymdeithasol neu gwrs (er enghraifft, cwrs cyfrifiadurol i ddysgu sgiliau a fyddai'n eich galluogi i gadw mewn cysylltiad â'r teulu, neu siopa ar-lein ac ati).
- Gwasanaethau cwmnïaeth i'ch helpu i gael mynediad at weithgareddau neu wasanaethau, fel y rhai a restrir uchod.
- Help gyda gofal anifeiliaid anwes.

- Mathau penodol o bryniannau untro – er enghraifft, offer cartref arbenigol neu offer ac addasiadau²⁴. Mae Gofal Cymdeithasol Cymru wedi cynghori y gallai "pryniant untro fod yn allweddol i sicrhau llesiant. Gall hyn fod yn lle neu yn ychwanegol at brynu gwasanaeth parhaus. Er enghraifft, prynu beic i alluogi person i fynd allan os yw cerdded yn her, neu brynu set o offer ar gyfer yr ardd i allu treulio amser yn gartref"²⁵.
- Trafnidiaeth, fel taccsis.
- Gofal seibiant neu ofal dros dro mewn cartref gofal.
- Ers mis Ebrill 2016, lleoliad cartref gofal hirdymor / parhaol.

Nodwch: Cyn Ebrill 2016, ni ellid defnyddio taliadau uniongyrchol i drefnu gofal preswyl hirdymor. Fodd bynnag, mae'r *Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn caniatáu iddynt gael eu defnyddio ar gyfer gofal mewn cartref gofal yn ogystal â gwasanaethau amhreswyl / gofal cartref. Mae hyn yn cael ei gadarnhau yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru sy'n cyd-fynd â'r Ddeddf:*

"Gellir darparu taliadau uniongyrchol ar gyfer unrhyw angen a nodwyd am ofal a chymorth y mae awdurdod lleol i'w bodloni. Mae hyn yn cynnwys gofal a chymorth cymunedol **a gofal preswyl** tymor byr a **hirdymor**"²⁶.

²⁴ Gellid defnyddio taliadau uniongyrchol yn y cyd-destun hwn, er enghraifft, i brynu offer gan gyflenwr gwahanol i'r un y mae'r awdurdod lleol yn ei ddefnyddio fel arfer, neu roi arian tuag at fodel mwy costus, penodol iawn.

²⁵ 'Defnyddio taliadau uniongyrchol ar gyfer pryniannau untro', Gwefan Gofal Cymdeithasol Cymru: <https://socialcare.wales/resources-guidance/improving-care-and-support/care-and-support-at-home/using-direct-payments-for-one-off-purchases?> (Cyrchwyd ddiwethaf 6 Ionawr 2026).

²⁶ Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014: Rhan 4 Cod Ymarfer (Diwallu Anghenion), Llywodraeth Cymru.

Fodd bynnag, mae'n werth nodi bod polisi sefydledig eisoes o dan ddeddfwriaeth hŷn bod pobl yn cael dewis o opsiynau llety wrth fynd i fyw mewn cartref gofal²⁷. Parhaodd y *Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)* â'r egwyddor hon a rhaid i awdurdodau sicrhau bod gan y person ddewis gwirioneddol, a'u bod yn cael dewis lle mae eu hanghenion personol yn mynd i gael eu diwallu orau. Felly, o ystyried y dewis sy'n bodoli yn y maes hwn eisoes, mae angen ystyried pa rôl sydd gan taliadau uniongyrchol fel opsiwn. Nodwyd hefyd nad oes llawer o esboniad ynghylch sut y bydd hyn yn gweithio yn ymarferol [a] mae'n ymddangos bod y problemau posibl a fydd yn codi trwy ganiatáu i daliadau uniongyrchol gael eu defnyddio ar gyfer cyfnodau hir o ofal preswyl, yn drech nag unrhyw fudd-daliadau". Mae'r problemau hyn yn cynnwys "yr ansicrwydd posibl ynghylch 'preswylfa gyffredin' pobl sy'n mynd i fyw mewn gofal preswyl gan ddefnyddio taliadau uniongyrchol a'r risg y gall preswylwyr o'r fath fod yn fwy agored i ofynion gan ddarparwyr eu bod yn 'ychwanegu' tuag at daliadau awdurdodau lleol"²⁸.

13 Astudiaethau achos taliadau uniongyrchol

Astudiaeth Achos 1

*"Mae David yn gofalu am ei wraig sydd â dementia. Mae'n poeni amdani ac nid yw'n hoffi ei gadael ar ei phen ei hun. Mae hynny'n broblem oherwydd ei fod yn cael trafferth siopa am fwyd yn wythnosol. Mae hyn yn creu problemau ymarferol ac yn golygu ei fod yn teimlo'n ynysig. Yr ateb oedd prynu gliniadur gyda thaliad uniongyrchol. Erbyn hyn gall David siopa yn yr archfarchnad ar-lein a threfnu bod y bwyd yn cael ei gludo ato. Gall hefyd siarad gyda'i ferch sy'n byw ymhell i ffwrdd ar Skype"*²⁹.

²⁷ I gael rhagor o wybodaeth am yr egwyddorion y tu ôl i ddewis llety ar gyfer pobl yr asesir eu bod angen cartref gofal, gweler Canllaw 10w Age Cymru *Talu am leoliad cartref gofal parhaol yng Nghymru* a Chanllaw 60w *Dewis cartref gofal os yw'r awdurdod lleol yn cyfrannu tuag at eich ffioedd gofal*.

²⁸ Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014: Trosolwg (wedi'i diweddarau'n rhannol Chwefror 2022), Yr Athro Luke Clements.

Mae copi ar gael yma: www.lukeclements.co.uk/rhydian-social-welfare-law-in-wales/an-overview-briefing-social-care-law-in-wales/

²⁹ 'Defnyddio taliadau uniongyrchol ar gyfer pryniannau untro', gwefan Gofal Cymdeithasol Cymru: www.socialcare.wales/resources-guidance/improving-care-and-support/care-and-support-at-home/using-direct-payments-for-one-off-purchases (cyrchwyd ddiwethaf 6 Ionawr 2026).

Astudiaeth Achos 2

*"Mae gan Sophie gyflyrau meddygol sy'n achosi blinder. Mae hi'n ceisio arbed ei hegri ar gyfer y tasgau pwysicaf, ac mae hi'n defnyddio ei thaliad uniongyrchol i dalu am lanhawr i lanhau a thacluso ei fflat am ddwy awr ddwywaith yr wythnos. Heb y gefnogaeth hon, byddai ei fflat yn anhrefnus yn ei blino a'i diflasu. Gydag ychydig oriau o gefnogaeth bob wythnos, gall Sophie reoli ei hegri yn well a threulio'r amser yn gwneud pethau y mae hi'n eu mwynhau fel mynd am goffi gyda'i ffrindiau"*³⁰.

Astudiaeth Achos 3

*"Mae David bob amser wedi ymfalchïo yn ei ardd ond nid yw'n gallu ymdopi ar ei ben ei hun mwyach. Trwy gyflogi garddwr unwaith bob pythefnos, mae ganddo help i gynnal ei ardd i safon uchel, a gall wneud rhai tasgau gyda chefnogaeth a mwynhau'r cwmni a'r sgwrs. Mae'r taliad uniongyrchol wedyn yn gallu cefnogi David i wella ei iechyd corfforol a meddyliol. Mae David yn profi ymdeimlad o falchder o allu cadw ei ardd mewn cyflwr da, ac mae'r cwmni wythnosol yn ei helpu i fynd i'r afael ag unigrwydd"*³¹.

14 Amrywio sut rydych chi'n defnyddio taliad uniongyrchol o wythnos i wythnos (oherwydd anghenion amrywiol)

Mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn cynghori:

³⁰ 'Defnyddio taliadau uniongyrchol i gyflogi cynorthwyyr personol', gwefan Gofal Cymdeithasol Cymru: www.socialcare.wales/resources-guidance/improving-care-and-support/care-and-support-at-home/using-direct-payments-to-employ-personal-assistants (cyrchwyd ddiwethaf 6 Ionawr 2026).

³¹ Ibid

"Mae'r hyblygrwydd sy'n gynhenid mewn taliadau uniongyrchol yn golygu bod yn rhaid i dderbynwyr, neu eu cynrychiolwyr, allu addasu swm y taliad uniongyrchol maen nhw'n ei ddefnyddio o wythnos i wythnos. Rhaid iddynt allu 'bancio' unrhyw daliad nas defnyddiwyd i'w ddefnyddio fel a phan fydd anghenion ychwanegol yn codi (gallai hyn fod yn arbennig o berthnasol i'r rhai y mae eu hanghenion yn amrywio). **Cyn belled â bod y taliad yn cael ei ddefnyddio i gyflawni canlyniadau personol y derbynnydd, nid oes angen penderfynu ar y patrwm wythnosol gwirioneddol o ofal a chymorth**"³².

Fodd bynnag, os oedd newidiadau sylweddol mewn anghenion a oedd yn golygu nad oedd y trefniadau presennol yn addas, efallai y bydd angen cynnal asesiad anghenion gofal newydd – gweler adran 18 isod.

15 Problemau wrth drefnu eich gwasanaethau eich hun trwy daliadau uniongyrchol

Mae'r adran hon yn ymdrin â'r materion sy'n ymwneud â threfnu eich gwasanaethau eich hun, gan gynnwys:

- cyflogi eich gweithwyr gofal neu gynorthwyywyr personol eich hun;
- contractio gydag asiantaeth neu rywun sy'n hunangyflogedig;
- materion ynghylch talu am ofal gan aelod o'r teulu;
- prynu eich offer anabledd eich hun; ac
- delio ag argyfyngau.

15.1 Cyflogi eich gweithwyr gofal neu gynorthwyywyr personol eich hun – materion i'w hystyried cyn ac wrth recriwtio

Nodwch: Mae'r opsiwn hwn o bosibl yn rhoi'r dewis a'r rheolaeth fwyaf i chi dros eich gwasanaethau gofal. **Mae rhai pobl yn poeni am gyfrifoldebau cyflogwyr, fodd bynnag. Os felly, gweler adran 15.2 isod.**

³² Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014: Rhan 4 Cod Ymarfer (Diwallu Anghenion), Llywodraeth Cymru.

Eich cyfrifoldebau cyfreithiol cyffredinol fel cyflogwr, gan gynnwys yswiriant iechyd a diogelwch ac atebolrwydd

Mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn darparu cryn dipyn o wybodaeth am y mater hwn:

- “Pan ddefnyddir taliad uniongyrchol i gyflogi rhywun, rhaid i awdurdodau lleol sicrhau bod derbynwyr, neu eu cynrychiolwyr, yn **gwbl ymwybodol o'u cyfrifoldebau cyfreithiol fel cyflogwr** a'u bod yn derbyn y cymorth a'r adnoddau angenrheidiol i reoli eu cyfrifoldebau cyflogaeth. Mae hyn yn cynnwys cefnogi derbynwyr i sicrhau bod gan weithwyr hawl gyfreithiol i weithio yn y DU”.
- "Rhaid i awdurdodau lleol gefnogi derbynwyr taliadau uniongyrchol i gydymffurfio â gofynion iechyd a diogelwch sy'n deillio o'u taliad uniongyrchol", gan gynnwys cefnogi derbynwyr "gydag asesiadau iechyd a diogelwch eu gweithwyr... yn enwedig mewn perthynas ag anghenion symudedd”.
- Rhaid i awdurdodau lleol sicrhau ym mhob achos bod **"yswiriant atebolrwydd priodol ar waith a bod derbynwyr [taliadau uniongyrchol] yn gwerthfawrogi bod ganddynt ddyletswydd gyfreithiol o ofal i'r rhai y maent yn eu cyflogi"**³³.

Hysbysebu'r swydd

Bydd angen i chi ystyried materion fel:

- llunio hysbysebion swyddi a disgrifiadau swydd (gwneud yn siŵr eich bod wedi nodi'r holl dasgau y byddwch am eu gwneud);
- ble i hysbysebu.
- beth i'w ofyn mewn cyfweliadau.

Contractau cyflogaeth

Mae llunio contract yn **ofyniad cyfreithiol** ac mae'n sicrhau eich bod chi a'r person rydych chi'n ei gyflogi yn glir ar y dechrau am delerau ac amodau'r gyflogaeth. Pan fydd y contract yn cael ei lunio, dylai gynnwys:

- teitl y swydd, disgrifiad byr o'r swydd a'r dyddiad cychwyn;
- oriau gwaith a gweithle;

³³ Ibid

- faint y bydd y gweithiwr yn ei ennill (rhaid i hyn fodloni'r isafswm cyflog cenedlaethol);
- p'un a yw'r gyflogaeth yn gyfnod penodol neu'n barhaol;
- hawl statudol i dâl salwch a gwyliau blynyddol;
- darpariaeth cynllun pensiwn; ac
- gofynion hysbysiad.

Rhaid cydnabod y costau o ddod yn gyflogwr

Wrth gyrraedd y swm taliad uniongyrchol y byddwch yn cael ei ddyrannu, rhaid i'r awdurdod lleol ystyried y costau sy'n gysylltiedig â dod yn gyflogwr – gweler adran 11 uchod am enghreifftiau o'r costau ychwanegol hyn.

Gwneud cyfraniadau pensiwn ar ran eich gofalwr(wyr)

Efallai bod gennych ddyletswydd gyfreithiol fel cyflogwr i gofrestru gweithiwr mewn cynllun pensiwn a chyfrannu tuag at eu pensiwn – a elwir yn 'gofrestru awtomatig'.

Os ydych chi'n cyflogi gofalwr 22 oed neu'n hŷn ar hyn o bryd (sydd yn iau nag oedran Pensiwn y Wladwriaeth) a'ch bod yn talu dros £192 yr wythnos neu £833 y mis iddynt (ac nad ydynt eisoes yn derbyn pensiwn gweithle addas), rhaid i chi wneud trefniadau i'w gofrestru mewn cynllun pensiwn.

Os nad yw'ch cyflogai yn bodloni'r meini prawf uchod, nid oes rhaid i chi eu rhoi mewn cynllun pensiwn. Fodd bynnag, mae'n rhaid i chi fel arfer roi opsiwn iddynt ymuno. Os ydynt yn ymuno, mewn rhai achosion mae hyn yn golygu bod yn rhaid i chi dalu cyfraniadau i'r cynllun ar eu rhan.

Mae'n bwysig cysylltu â'r Rheoleiddiwr Pensiynau am wybodaeth os oes gennych unrhyw amheuaeth am eich dyletswyddau o ran cofrestru pensiwn. Gall methu â chydymffurfio â'ch dyletswyddau arwain at y Rheoleiddiwr Pensiynau yn rhoi dirwy i chi (gweler adran 21 isod am eu manylion cyswllt).

Rheoli risg

Argymhellir i ofyn am ddau geirda ysgrifenedig ar gyfer ymgeisydd, ynghyd â galwad ffôn o bosibl. Gallech hefyd ystyried gofyn i aelod o'r teulu neu ffrind dreulio peth amser gyda chi a'ch cynorthwyydd personol ar ddechrau'r trefniant. Gweler hefyd adran 19, sy'n cynnwys rhagor o wybodaeth am reoli risgiau a diogelu.

15.2 **Contractio gydag asiantaeth neu rywun sy'n hunangyflogedig (os ydych am ddefnyddio taliadau uniongyrchol, ond nad ydych am fod yn gyflogwr)**

Os ydy'r posibilrwydd o gymryd y cyfrifoldeb o fod yn gyflogwr yn ormod i chi, nid yw hyn yn golygu na fyddwch yn gallu defnyddio'r system taliadau uniongyrchol. Yn lle hynny, gallwch ddewis defnyddio'ch taliad uniongyrchol i contractio gyda:

- **asiantaeth gofal annibynnol; *neu***
- **person sy'n hunangyflogedig.**

Asiantaethau gofal annibynnol

Os penderfynwch ddefnyddio asiantaeth gofal annibynnol, dylech allu dod o hyd i asiantaethau lleol:

- drwy chwilio cronfa ddata o asiantaethau ar *wefan* Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC yw'r corff sy'n gyfrifol am arolygu a rheoleiddio gwasanaethau gofal cymdeithasol yng Nghymru – gweler adran 21 isod am fanylion cyswllt);
- trwy ofyn i'ch adran gwasanaethau cymdeithasol awdurdod lleol a oes ganddynt restrau o asiantaethau sy'n addas ar gyfer diwallu eich anghenion gofal penodol; *neu*
- trwy argymhelliad personol.

Efallai yr hoffech gysylltu â sawl asiantaeth cyn gwneud penderfyniad.

Contractio gyda rhywun sy'n hunangyflogedig

Pwysig: Os ydych chi'n dewis yr opsiwn o contractio gyda rhywun sy'n hunangyflogedig, mae'n bwysig gwirio'n ofalus bod unrhyw contract rydych chi'n ei wneud gyda nhw yn golygu eu bod yn wirioneddol hunangyflogedig. Os bydd unrhyw beth yn mynd o'i le yn y berthynas waith ac rydych chi wedi eu cyflogi, gallech ysgwyddo atebolrwydd ariannol, gan na fydddech wedi gwneud cyfraniadau cyflogwr perthnasol.

Mae gan CThEF ddyfais ar-lein i bennu statws cyflogaeth gweithiwr:

www.hmrc.gov.uk/calcs/esi.htm

Hefyd, mae'r Grŵp Diwygio Treth Incwm Isel yn cynhyrchu gwybodaeth am gyflogi cynorthwydd personol neu ofalwr:

www.litr.org.uk/employers/independent-living-paying-care

Dylai'r awdurdod lleol neu sefydliad gwirfoddol lleol neu sefydliad a arweinir gan ddefnyddwyr hefyd allu helpu.

Efallai gallwch chi gysylltu â sawl person hunangyflogedig sy'n cynnig y gwasanaethau sydd eu hangen arnoch cyn gwneud penderfyniad.

Pethau i'w cadarnhau cyn ymrwymo i contract gydag asiantaeth neu unigolyn hunangyflogedig

Cyn ymrwymo i gytundeb, cadarnhewch y canlynol gyda'r asiantaeth neu'r unigolyn dan sylw:

- y tasgau rydych chi'n disgwyl i'r staff eu gwneud a'r ffordd yr hoffech iddynt gael eu gwneud;
- beth mae'r pris a ddyfynnir yn ei gwmpasu (mae rhai asiantaethau yn ychwanegu TAW neu'n codi tâl ychwanegol am deithio);
- pa yswiriant sydd ganddynt;
- pa hyfforddiant y mae'r staff wedi'i gael;
- trefniadau cwmpasu – er enghraifft ar gyfer salwch; ac
- Beth sy'n digwydd os oes rhaid i chi ganslo'r gwasanaeth yn sydyn.

Er mwyn osgoi unrhyw gamddealltwriaeth yn y dyfodol, dylai eich contract fod mor glir â phosibl. Mae asiantaethau yn aml yn defnyddio contractau safonol y gellir eu hunigoleiddio. Os ydych chi'n gwneud eich contract eich hun gyda rhywun sy'n hunangyflogedig, gall enghreifftiau o gontractau fod yn ddefnyddiol – efallai y bydd rhai o'r sefydliadau a restrir yn adran 21, er enghraifft Disability Rights UK, yn gallu cynnig cyngor pellach ar hyn.

Nodwch: 'Gofal micro'

Mae gwasanaethau 'gofal micro' yn gymorth hyblyg, wedi'i phersonoli trwy weithiwr gofal hunangyflogedig, neu fusnes gofal a chymorth bach (sy'n cyflogi nifer fach o bobl yn unig).

Gall y gwasanaethau hyn fod yn arbennig o ddefnyddiol i bobl sy'n dymuno meithrin perthynas bersonol ag un gofalwr a gallwch ddefnyddio eich taliadau uniongyrchol i drefnu'r math hwn o wasanaeth. Mae Canllaw Age Cymru 6w *Dod o hyd i gymorth gartref yng Nghymru* yn cynnwys rhywfaint o wybodaeth ychwanegol am y pwnc hwn.

15.3 Defnyddio taliad uniongyrchol i dalu am ofal gan aelod o'r teulu

Gall hyn fod yn bosibl pan fo'r awdurdod lleol yn barnu ei fod yn briodol ar gyfer hyrwyddo lles y derbynnydd. Mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn cynghori'r canlynol:

"Wrth hyrwyddo canlyniadau personol person [y dylid eu cyflawni trwy eu gwasanaethau gofal cymdeithasol], gall awdurdod lleol awdurdodi taliadau uniongyrchol i dalu perthynas sy'n byw yn yr un aelwyd â'r derbynnydd os ydynt yn darparu gofal a chymorth neu os ydynt yn rheoli taliadau uniongyrchol y derbynnydd".

"Wrth ystyried a fydd cyflogi'r perthynas yn darparu'r canlyniad lles gorau i'r unigolyn hwnnw, rhaid i'r awdurdod lleol ystyried barn y derbynnydd cyn dod i benderfyniad. Lle mae mesurau diogelu priodol ar waith, cyflogaeth perthynas sy'n byw yn yr un aelwyd yn aml yw'r ffordd fwyaf addas o ddarparu gofal gan ei fod yn galluogi ac yn cefnogi parhad gofal, cydnabyddiaeth o ddewis personol ac yn hyrwyddo ymyrraeth gynnar".

"Ym mhob achos, rhaid i'r awdurdod lleol, ar ôl ystyried barn y derbynnydd, fod yn fodlon mai cyflogi perthynas agos sy'n byw yn yr un aelwyd yw'r ffordd orau o hyrwyddo a chyflawni eu canlyniadau personol"³⁴.

15.4 Offer ac addasiadau

Os, yn dilyn asesiad anghenion, rydych chi'n cael taliad uniongyrchol i brynu offer, cymerwch gyngor i sicrhau bod yr offer rydych chi'n ei brynu yn ddiogel, yn addas ac yn gost-effeithiol. Gallwch gysylltu ag adran therapi galwedigaethol eich gwasanaethau cymdeithasol lleol sy'n debygol o fod wedi bod yn ymwneud ag asesu eich anghenion i ddechrau a nodi offer penodol fel y ffordd orau o ddiwallu rhai ohonynt neu bob un ohonynt.

Os ydych chi'n bwriadu defnyddio'ch taliad uniongyrchol am offer, penderfynwch a fyddwch chi neu'r adran gwasanaethau cymdeithasol yn berchen ar yr offer a phwy fydd yn gyfrifol am ofal a chynnal a chadw parhaus.

Gweler hefyd Canllaw Age Cymru 42w *Offer anabledd ac addasiadau i'r cartref yng Nghymru* i gael rhagor o wybodaeth.

15.5 Delio ag argyfyngau

Os yw'r awdurdod lleol yn dod yn ymwybodol nad yw eich anghenion a aseswyd yn cael eu diwallu neu eich bod mewn perygl, mae ganddo ddyletswydd i adolygu eich achos a gweithredu i ddatrys y mater.

Felly, ni ddylech gael eich gadael heb y gefnogaeth sydd ei hangen arnoch a dylech – fel rhan o'ch cynllun gofal – gael person a enwir i gysylltu â nhw mewn argyfwng i ofyn am help.

Mae'n ddefnyddiol trafod problemau posibl gyda gwasanaethau cymdeithasol pan fydd eich taliadau uniongyrchol yn cael eu sefydlu, fel y gellir cynnwys trefniadau wrth gefn fel rhan o'ch cynllun gofal. Gallai hyn gynnwys materion fel car yn torri lawr, neu drefniadau i ddiwallu eich anghenion gofal os yw'ch gweithiwr gofal yn sâl neu ar wyliau.

Efallai y bydd angen addasu eich taliadau uniongyrchol yn unol â hynny i gwrdd ag unrhyw wariant ychwanegol angenrheidiol. Mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn cynghori:

³⁴ Ibid

"Rhaid i awdurdod lleol gael trefniadau ar waith ar gyfer gwneud taliadau ychwanegol mewn argyfwng. Rhaid i dderbynwyr neu eu cynrychiolwyr fod yn ymwybodol o'r gweithdrefnau hyn a sut maen nhw'n cael taliadau ychwanegol os bydd argyfwng. Rhaid i'r wybodaeth hon gael ei gwneud yn hysbys ar y dechrau er mwyn lleddfu pwysau ychwanegol ar y derbynnydd"³⁵.

16 Monitro taliadau uniongyrchol gan awdurdodau lleol

Er nad yw'r adran gwasanaethau cymdeithasol yn darparu nac yn trefnu eich gwasanaethau gyda thaliadau uniongyrchol, mae'n dal i fod yn gyfrifol am sicrhau bod eich anghenion hirdymor yn cael eu diwallu ac mae ganddi ddyletswydd diogelu barhaus. Dylai cydbwysedd rhwng eich hawl i ymreolaeth a diogelwch fod y nod.

Dylid trafod a chytuno ar drefniadau monitro i wirio nad yw eich anghenion wedi newid (gweler adran 18) ac i drafod unrhyw bryderon sydd gennych gyda'r awdurdod lleol cyn i chi ddechrau derbyn eich taliadau uniongyrchol. Peidiwch â theimlo cywilydd wrth mynegi amheuan neu bryderon am y gwasanaethau rydych chi'n eu prynu, neu unrhyw broblemau eraill. Ni ddylid stopio'ch taliadau yn awtomatig o ganlyniad i'ch pryderon.

Bydd monitro ariannol hefyd i sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei wario'n briodol. Cyn i'ch taliadau uniongyrchol ddechrau, trafodwch y wybodaeth y bydd disgwyl i chi ei darparu a'r ffordd y bydd monitro yn cael ei gynnal.

Fel arfer, bydd disgwyl i chi gadw cyfrifon ar wahân, gan gynnwys gweithredu cyfrif banc ar wahân ar gyfer eich taliadau uniongyrchol. Dylai trefniadau archwilio fod mor syml a hawdd eu deall â phosibl.

Nodwch: Yn gyffredinol, bydd awdurdodau lleol yn gallu adennill arian a ddarparwyd ar gyfer taliadau uniongyrchol gan y derbynnydd os nad yw wedi'i ddefnyddio at ei bwrpas arfaethedig. Cyn i chi dderbyn taliadau uniongyrchol, dylid esbonio'r amgylchiadau pan ystyrir dychwelyd eich arian.

³⁵ Ibid

17 Rhoi'r gorau i daliadau uniongyrchol

17.1 Dewis rhoi'r gorau i'r taliadau uniongyrchol

Gallwch benderfynu ar unrhyw adeg i roi'r gorau i dderbyn taliadau uniongyrchol.

Os byddwch yn dewis gwneud hynny, dylai'r awdurdod lleol wedyn drefnu gwasanaethau i chi yn y ffordd draddodiadol yn lle hynny, fel bod eich anghenion yn parhau i gael eu diwallu.

17.2 Beth os yw'r awdurdod lleol yn dymuno rhoi'r gorau i'r taliadau uniongyrchol?

Gall yr awdurdod lleol benderfynu rhoi'r gorau i daliadau uniongyrchol os yw'n penderfynu:

- nid yw eich anghenion yn cael eu diwallu mwyach; *neu*
- nid ydych chi, neu'r person/pobl sy'n eich cefnogi, yn gallu rheoli eich taliad; *neu*
- bu camwariant o'r taliadau.

Fodd bynnag, mewn perthynas â'r ddau bwynt bwled cyntaf uchod, mae'n rhaid i'r awdurdod lleol "archwilio'r holl opsiynau ymarferol i barhau i ddiwallu anghenion gofal a chymorth derbynnydd trwy daliadau uniongyrchol", cyn gwneud y penderfyniad terfynol i roi'r gorau iddynt³⁶.

Dylech chi a, os yw'n briodol, eich gofalwr, fod yn rhan lawn o'r trafodaethau hyn ac yn archwilio diwygiadau posibl i'r ddarpariaeth a/neu gymorth ychwanegol i reoli'r taliad uniongyrchol.

³⁶ Ibid

18 Adolygiadau awdurdodau lleol cyfnodol o anghenion gofal a thaliadau uniongyrchol

P'un a yw rhywun yn derbyn eu gwasanaethau gofal cymdeithasol trwy daliadau uniongyrchol, neu awdurdodau lleol wedi'u trefnu a'u darparu, rhaid adolygu eu hanghenion gofal o bryd i'w gilydd.

Mae'r adolygiadau hyn yn penderfynu a yw'r ddarpariaeth bresennol "yn bodloni anghenion yr unigolyn, ac i ystyried a yw eu hanghenion wedi newid ac os oes angen ailasesiad"³⁷.

O ran taliadau uniongyrchol, yn benodol, mae Llywodraeth Cymru wedi datgan y dylai awdurdodau gynnal adolygiad o **fewn chwe mis** i'r taliad cyntaf gael ei wneud er mwyn barnu sut mae'r trefniant yn gweithio³⁸ (Mae hyn ychydig yn wahanol i adolygiad cyntaf lle mae rhywun yn derbyn gwasanaethau a ddarperir neu wedi'u trefnu gan awdurdod lleol – yma dylai adolygiad gael ei gynnal o fewn deuddeg mis ar ôl i wasanaethau gael eu rhoi ar waith). Yn dilyn yr adolygiad chwe mis cychwynnol, dylai adolygiadau dilynol gael eu cynnal ar gyfnodau deuddeg mis.

Gall y defnyddiwr gwasanaeth ei hun (neu ei eiriolwr, gofalwr neu aelod o'r teulu ar eu rhan) ofyn am anghenion gofal a/neu adolygiadau taliadau uniongyrchol ar unrhyw adeg.

I gael rhagor o wybodaeth gyffredinol am asesiadau anghenion gofal ac adolygiadau o anghenion gofal, gweler Canllaw Age Cymru 41w *Asesiadau gofal cymdeithasol ar gyfer pobl hŷn ag anghenion gofal yng Nghymru*.

³⁷ Ibid

³⁸ Ibid

19 Rheoli risg, gwiriadau cofnodion troseddol a diogelu defnyddwyr gwasanaeth

Rheoli risg

Mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn cynghori bod yn **rhaid** i awdurdodau lleol "weithio gyda derbynwyr taliadau uniongyrchol, neu eu cynrychiolwyr, i'w cefnogi i gymryd cyfrifoldeb am nodi a rheoli unrhyw risgiau sy'n gysylltiedig â darparu eu taliadau uniongyrchol... rhaid cefnogi derbynwyr i wneud dewisiadau am y risgiau y maent yn gyfforddus â nhw ac am gymryd risg cadarnhaol".

Hefyd, "rhaid i awdurdodau lleol rannu gyda derbynwyr, neu eu cynrychiolwyr, ganlyniadau unrhyw asesiadau risg a gynhaliwyd fel rhan o'r asesiad gofal [anghenion]. Mae hyn yn galluogi'r unigolyn i rannu'r asesiad risg gyda'i weithwyr a'i ddarparwyr gofal a chymorth"³⁹.

19.1 Gwiriadau cofnodion troseddol – y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)

Dylai awdurdodau lleol roi gwybod i'r defnyddiwr gwasanaeth (neu'r 'person addas' sy'n rheoli'r taliad uniongyrchol ar eu rhan) am y manteision posibl o gael gwiriad Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS), fel rhan o gynllun rheoli risg. Gweler adran 21 isod am fanylion cyswllt ar gyfer y DBS.

Pwysig: Os nad yw'r 'person addas' yn berthynas agos neu'n ffrind i'r defnyddiwr gwasanaeth, yna mae'n **ofynnol yn ôl y gyfraith** iddynt gael siec DBS ar gyfer unrhyw un y maent yn ei gyflogi trwy daliadau uniongyrchol.

Mae Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru yn cynghori bod yn rhaid i awdurdodau lleol "sicrhau bod eu polisïau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) mewn perthynas â thaliadau uniongyrchol yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth a'r canllawiau cyfredol". Hefyd, rhaid i awdurdodau "sicrhau bod gwiriadau DBS, lle bo angen, yn cydymffurfio â chanllawiau diogelu DBS"⁴⁰.

³⁹ Ibid

⁴⁰ Ibid

19.2 Diogelu pobl hŷn

Dylai unrhyw un sy'n pryderu y gallai person hŷn naill ai fod yn ddioddefwr camdriniaeth, neu mewn perygl o gamdriniaeth, gysylltu ag adran gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol (neu, os oes perygl difrifol y gallai'r person fod mewn perygl o niwed neu os yw'r sefyllfa yn haeddu sylw ar unwaith, gellir galw'r heddlu).

Mae'n rhaid i'r adran gwasanaethau cymdeithasol gael gweithdrefnau ar waith y maent yn eu dilyn pan fydd rhywun yn dweud eu bod yn cael eu cam-drin.

Bydd yn rhaid i'r rheoleiddiwr gwasanaethau gofal cymdeithasol yng Nghymru – Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) – hefyd weithredu ar frys pan fo pryder diogelu neu pan fo trosedd wedi'i chyflawni.

I gael rhagor o wybodaeth am ddiogelu ac amddiffyn pobl hŷn rhag cam-drin a/neu esgeulustod, gan gynnwys gweithdrefnau a chanllawiau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r mater, gweler Canllaw 78w Age Cymru *Diogelu pobl hŷn yng Nghymru rhag cam-drin ac esgeulustod*.

20 Cwyno am benderfyniad neu ddarpariaeth gwasanaeth

Mae gennych chi, neu'ch cynrychiolydd, yr hawl i ddefnyddio **gweithdrefn gwyno awdurdodau lleol** os gwrthodir taliad uniongyrchol i chi, neu os ydych yn anhapus ag unrhyw gamau neu benderfyniad arall a wnaed gan yr awdurdod lleol. Gellir gwneud cwyn hefyd mewn perthynas â gweithredoedd sefydliadau sy'n cyflawni gwasanaethau ar ran yr awdurdod lleol.

Dylai manylion y weithdrefn hon fod ar gael ar gais gan yr awdurdod. Mae gan Ganllaw Age Cymru 59w *Sut i ddatrys problemau a gwneud cwyn am ofal cymdeithasol yng Nghymru* ragor o wybodaeth am y pwnc hwn, gan gynnwys:

- gweithdrefnau cwynion gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol a sut y dylent weithredu;
- sut i wneud cwyn;
- beth i'w ddisgwyl pan fyddwch chi'n gwneud cwyn;

- gwybodaeth am sefydliadau a allai eich cynorthwyo i wneud cwyn (megis Llais – corff sy'n cynrychioli lleisiau a barn y cyhoedd mewn perthynas â gofal cymdeithasol a gwasanaethau iechyd); ac
- Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (gallwch chi gyflwyno cwyn i'r Ombwdsmon os nad yw ymateb yr awdurdod lleol yn foddhaol).

21 Sefydliadau defnyddiol

Acas (Gwasanaeth Cyngori, Cymodi a Chyflafareddu)

Sefydliad sy'n cynnig gwybodaeth a chyngor cyfrinachol a diduedd am ddim i gyflogwyr a gweithwyr ar berthnasau yn y gweithle a chyfraith cyflogaeth.

Llinell gymorth: 0300 123 1100

Gwefan: www.acas.org.uk

Cyngor Age Cymru

Gwybodaeth a chyngor cyfrinachol am ddim ar faterion sy'n effeithio ar bobl dros 50 oed yng Nghymru. Gwasanaeth ar gael yn Gymraeg neu Saesneg.

Ffôn: 0300 303 44 98

E-bost: advice@agecymru.org.uk

Gwefan: www.agecymru.wales/advice

Sefydliadau Age Cymru (lleol)

Efallai y bydd eich cangen Age Cymru lleol yn gallu darparu cyngor a chymorth ar ystod o faterion. **Gall Cyngor Age Cymru** ddarparu manylion eich cangen Age Cymru lleol (gweler uchod), neu ewch i wefan Age Cymru:

www.agecymru.wales/local

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

Mae AGC yn arolygu ac yn rheoleiddio gofal a gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru.

Ffôn: 0300 7900 126
E-bost: ciw@gov.wales
Gwefan: www.careinspectorate.wales

Gofalwyr Cymru

Elusen sy'n darparu gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth i ofalwyr.

Ffôn: 029 2081 1370
E-bost: info@carerswales.org
Llinell Gymorth Carers UK: 0808 808 7777
Gwefan: www.carerswales.org

Cyngor ar Bopeth

Canolfannau cyngori am ddim sy'n cynnig cyngor cyfrinachol ac annibynnol.

Ffôn: 0800 702 2020
Gwefan: www.citizensadvice.org.uk/wales

Dewis Cymru

Gwefan a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru i gynorthwyo i gyflawni darpariaethau penodol yn y *Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)*. Yn cynnwys cronfa ddata helaeth o wahanol wasanaethau i helpu pobl gyda'u lles.

www.dewis.wales

Disability Rights UK

Sefydliad sy'n cael ei drefnu gan ac ar gyfer pobl anabl sy'n gweithio ar ymgyrchoedd a pholisi. Hefyd mae ganddynt adran 'Canllawiau ac Adnoddau' ar eu gwefan.

Ffôn: 0330 995 0400 (for general enquiries)
E-bost: enquiries@disabilityrightsuk.org
Gwefan: www.disabilityrightsuk.org

Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd

Mae'r gwasanaeth hwn yn cynorthwyo cyflogwyr i wneud penderfyniadau mwy diogel am recriwtio ac atal pobl anaddas rhag gweithio gyda grwpiau sy'n agored i niwed.

Ffôn: 03000 200 190 (Saesneg) / 03000 200 191 (Cymraeg)

Gwefan:

www.gov.uk/government/organisations/disclosure-and-barring-service

Cyllid a Thollau EF

Mae Cyllid a Thollau EF yn gallu darparu gwybodaeth i'r rhai sy'n ystyried dod yn gyflogwyr.

Gwefan: www.hmrc.gov.uk

Llais

Corff sy'n cynrychioli lleisiau a barn pobl yng Nghymru o ran y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Ffôn: 029 20 235558

E-bost: enquiries@llaiscymru.org

Gwefan: www.llaiswales.org

Grŵp Diwygio Treth Incwm Isel

Nod y Grŵp Diwygio Treth Incwm Isel yw helpu'r rhai nad ydynt yn gallu fforddio talu am gyngor proffesiynol drwy ddarparu gwybodaeth am y system dreth (gan gynnwys y meysydd hynny o'r system fudd-daliadau sy'n gorgyffwrdd â'r system dreth).

Gwefan: www.litrg.org.uk

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Hyrwyddwr annibynnol dros bobl hŷn ledled Cymru.

Ffôn: 03442 640 670

E-bost: ask@olderpeople.wales

Gwefan: www.olderpeople.wales

Y Rheoleiddiwr Pensiynau

Gwybodaeth i gyflogwyr am eu dyletswyddau i gofrestru eu gweithwyr mewn cynllun pensiwn.

Ffôn: 0345 600 1011

Gwefan: www.thepensionsregulator.gov.uk/en/employers

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

Mae'r Ombwdsmon yn penderfynu os yw pobl wedi cael eu trin yn annheg neu wedi derbyn gwasanaeth gwael gan gorff cyhoeddus, fel awdurdod lleol neu'r GIG.

Ffôn: 0300 790 0203

E-bost: ask@ombudsman.wales

Gwefan: www.ombudsman.wales

Gofal Cymdeithasol Cymru

Mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn gyfrifol am reoleiddio a datblygu'r gweithlu gofal cymdeithasol yng Nghymru

Ffôn: 0300 303 3444

E-bost: info@socialcare.wales

Gwefan: www.socialcare.wales

Llywodraeth Cymru

Llywodraeth ddatganoledig Cymru.

Ffôn: 0300 060 4400

E-bost: customerhelp@gov.wales

Gwefan: www.gov.wales

22 Rhagor o wybodaeth am Age Cymru

22.1 Pwy ydym ni

Age Cymru yw'r elusen genedlaethol i bobl hŷn yng Nghymru.

Ein gweledigaeth yw cymdeithas sy'n cynnig y profiad gorau o heneiddio i bob person yng Nghymru. Mae pobl hŷn yn cael eu gwerthfawrogi, eu cynnwys ac yn gallu llunio penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau.

Ein cenhadaeth yw gwella bywydau pobl hŷn trwy ddarparu cyngor, cymorth a gwasanaethau dibynadwy. Rydym yn defnyddio ein gwybodaeth, ein mewnwelediad a'n profiad i ddylanwadu ar bolisïau a phenderfyniadau sy'n effeithio ar bobl hŷn.

Ynghyd â'n partneriaid lleol:

- rydym yn darparu gwybodaeth a chynghor;
- rydym yn darparu rhaglenni lles;
- rydym yn darparu eiriolaeth annibynnol;
- rydym yn cefnogi gofalwyr; ac
- rydym yn ymgyrchu ac yn ymchwilio.

Age Cymru

Tŷ'r Morwyr
Llys Trident
Ffordd Ddwyrain Moors
Caerdydd CF24 5TD

029 2043 1555

www.agecymru.wales

22.2 Sut allwn ni helpu

Cyngor Age Cymru: ein gwasanaeth gwybodaeth a chynghor ar faterion sy'n effeithio ar bobl dros 50 oed yng Nghymru

Mae Cyngor Age Cymru wedi ymrwymo i fod y gwasanaeth gwybodaeth a chynghor mwyaf blaenllaw i bobl hŷn yng Nghymru.

Ein nod yw darparu gwybodaeth a chynghor effeithiol, hygyrch, o ansawdd da wrth gynnig gwasanaeth diduedd a chyfrinachol am ddim. Gall Cyngor Age Cymru gynorthwyo pobl hŷn, eu teuluoedd, ffrindiau, gofalwyr neu weithwyr proffesiynol. Mae ein holl ganllawiau a'n taflenni gwybodaeth ar gael i'w lawrlwytho o'n gwefan, neu gallwch gysylltu â'n llinell gynghor i gael copïau am ddim drwy'r post.

Cymorth lleol

Mae Cyngor Age Cymru hefyd yn gweithredu fel porth i'n gwasanaethau lleol. Efallai y bydd cymorth wyneb yn wyneb trwy swyddfeydd lleol ac ymweliadau â'r cartref ar gael i bobl sydd angen cymorth ychwanegol neu fwy arbenigol.

Cysylltu â ni

Os hoffech siarad ag un o'n cynghorwyr arbenigol, yn Gymraeg neu'n Saesneg, ffoniwch ni ar **0300 303 44 98**. Mae ein llinell gyngor ar agor rhwng 9am a 4pm, o ddydd Llun i ddydd Gwener. Codir tâl ar alwadau ar yr un gyfradd â galwad i rif 01 neu 02 safonol. Byddant hefyd yn cael eu cynnwys yn awtomatig mewn unrhyw becyn munudau cynhwysol llinell dir neu ffôn symudol. Gallwch hefyd:

- E-bostio advice@agecymru.org.uk; neu
- Ewch i www.agecymru.wales/advice



Gwasanaeth Cwbl Achrededig sy'n cynnwys
adolygu gan gymheiriad
Fully Accredited Service with peer review



darparu gwybodaeth a chynghor o safon i bobl Cymru
a hynny mewn modd sy'n gyson
providing a consistent approach to quality information
and advice for the people of Wales



www.facebook.com/agecymru



www.x.com/AgeCymru



www.youtube.com/agecymru

Ymwadiad a gwybodaeth am hawlfraint

Nid yw'r canllaw hwn yn ddatganiad cynhwysfawr o'r gyfraith yn y maes hwn. Ni all Age Cymru roi cyngor cyfreithiol neu ariannol unigol ac efallai bod rhai rheolau wedi newid ers cyhoeddi'r canllaw hwn. Sylwch nad yw cynnwys asiantaethau, cwmnïau, cynhyrchion, gwasanaethau neu gyhoeddiadau a enwir yn y canllaw hwn yn gyfystyr ag argymhelliad na chymeradwyaeth gan Age Cymru. Er bod pob ymdrech yn cael ei wneud i sicrhau cywirdeb, ni all Age Cymru fod yn gyfrifol am wallau neu hepgoriadau. © **Age Cymru 2026**. Cedwir pob hawl. Gellir atgynhyrchu'r canllaw hwn yn gyfan gwbl neu'n rhannol ar ffurf heb ei newid gan sefydliadau lleol Age Cymru gyda chydabyddiaeth briodol i Age Cymru. Ni chaniateir atgynhyrchu arall ar unrhyw ffurf heb ganiatâd ysgrifenedig gan Age Cymru.

22.3 Sut allwch chi helpu

Mae'r holl wybodaeth a chyngor yn rhad ac am ddim ac yn gwbl ddiuedd. Mewn llawer o achosion, mae ein gwaith yn medru newid bywyd. Rydym yn boblogaeth sy'n heneiddio ac mae mwy o bobl nag erioed yn dod atom i ofyn am gefnogaeth. Helpwch ni i fod yno i'r rhai sydd angen ein help.

Gwneud rhodd

Mae rhoddion yn gwneud gwahaniaeth enfawr ac yn ein helpu i barhau â'n gwaith pwysig.

Ffoniwch: **029 2043 1555**

Ewch i: **www.agecymru.wales/donate**

Neu sganiwch y cod QR isod:



Mae pob rhodd rydyn ni'n ei dderbyn yn ein helpu i fod yno i rywun pan fydd angen ein help.

- Mae £10 yn cyfrannu tuag at weithiwr arbenigol hyfforddedig i ymateb i ymholiadau gan bobl sydd angen cymorth ein gwasanaeth gwybodaeth a chynghor.
- Mae £20 yn cyfrannu tuag at y gost o gynhyrchu canllawiau a thaflenni gwybodaeth am ddim sy'n darparu cyngor defnyddiol ar faterion sy'n effeithio ar bobl dros 50 oed.

Codi Arian

Mae nifer o ffyrdd o godi arian i gefnogi ein gwaith. Gallwch chi fynd ati i bobl, rhedeg marathon, neu weu hetiau bach ar gyfer yr her weu.

Ffoniwch: **029 2043 1555**

Ewch i: **www.agecymru.wales/getinvolved**

Gwirfoddoli gyda ni

Gallwch chi'n cefnogi ni i wneud gwahaniaeth i fywydau pobl hŷn trwy ein helpu mewn amrywiaeth o ffyrdd. Gallwch chi gymryd rhan mewn sawl ffordd wahanol, rydyn ni'n edrych mlaen i siarad gyda chi.

Ffoniwch: **029 2043 1555**

Ewch i: **www.agecymru.wales/volunteer**

Gadewch rhodd i ni yn eich ewyllys

Pan rydych chi'n gadael rhodd i Age Cymru yn eich ewyllys, rydych chi'n sicrhau bod pobl hŷn yn cael y gefnogaeth maen nhw'n ei haeddu yn y blynyddoedd i ddod. Gadewch y byd yn le llai unig.

Ffoniwch: **029 2043 1555**

Ewch i: **www.agecymru.wales/legacy**

Age Cymru 2026. Mae Age Cymru yn elusen gofrestedig rhif 1128436. Cwmni cyfyngedig trwy warant ac wedi'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr 6837284. Cyfeiriad y swyddfa gofrestedig yw: Y Llawr Gwaelod, Tŷ'r Morwyr, Llys Trident, Ffordd Ddwyrain Moors, Caerdydd CF24 5TD. © Age Cymru 2026.

